Cygnor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2012–2013 a

# Chynllun strategol 2013–2016

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2012–2013 a Chynllun strategol 2013–2016

Adroddiad blynyddol 2012–2013 a Chynllun strategol 2013–2016 a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50(2) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 52(7) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008.

*Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 14 Hydref 2013.*

HC 677 | Llundain: Y Llyfrfa | £16.00

**(h) Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2013**
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd priod ddeiliad yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r cyfeiriad canlynol sef Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.nmc-uk.org.

ISBN: 9780102986716

Argraffwyd yn y DU gan y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 2587288 10/13

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

# Cynnwys


Rhagair .......... 5

Adolygiad o berfformiad .......... 6

Cynllun strategol .......... 15

Adolygiad ariannol .......... 17

Adroddiad cydnabyddiaeth .......... 20

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon .......... 25

Datganiad Llywodraethu Blynyddol .......... 27

Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth .......... 37

Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd .......... 39

Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 .......... 41

Y Fantolen ar 31 Mawrth 2013 .......... 42

Datganiad llif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 .......... 43

Nodiadau i'r Cyfrifon .......... 44

Manylion ychwanegol y tabl yn nodyn 10 .......... 51

The Nursing and Midwifery Order 2001 (Form of Accounts) Determination 2010 .......... 65

# Adroddiad blynyddol 2012–2013

## Rhagair

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU. Ein prif ddiben yw diogelu cleifion a'r cyhoedd yn y DU drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd mewn modd effeithiol a chymesur. Rydym yn atebol i'r Senedd, drwy'r Gyfrin Gyngor, am y ffordd yr ydym yn cyflawni ein cyfrifoldebau. Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yn goruchwylio ein gwaith ac yn cynnal adolygiad blynyddol o'n perfformiad.

Rydym yn pennu ac yn hyrwyddo safonau addysg ac ymarfer, yn cadw cofrestr o'r rhai sy'n cyrraedd y safonau hyn, ac yn cymryd camau pan amheuir addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer. Drwy wneud hyn, rydym yn hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn nyrsys a bydwragedd ac yn y drefn reoleiddio.

Ym mis Gorffennaf 2012, cyhoeddodd y PSA (y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd gynt) adolygiad strategol a oedd yn cynnwys argymhellion lefel uchel ar gyfer gwella'r ffordd y cyflawnir ein swyddogaethau rheoleiddio. Derbyniwyd yr argymhellion gennym a chytunwyd â barn y PSA y byddai'n cymryd dwy flynedd cyn y byddai modd gweld gwelliant amlwg. Rydym wedi gwneud cryn gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion y PSA. Rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cychwyn ar brif raglen drawsnewid i wella'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio a moderneiddio ein systemau a'n gweithdrefnau.
- Ailddiffinio ein perthynas â chyrff proffesiynol ac undebau llafur, gan ei gwneud yn glir mai diogelu'r cyhoedd yw ein diben craidd.
- Adolygu ein holl weithgareddau er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd.
- Adolygu ein trefniadau llywodraethu, atgyfnerthu ein harweinyddiaeth a chynnal ymarfer ailstrwythuro sefydliadol mawr.
- Sicrhau bod sefyllfa ariannol yr NMC yn fwy sefydlog a buddsoddi'n sylweddol yn ein swyddogaeth sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer.

Ceir arwyddion bod y newidiadau yr ydym yn eu gwneud yn dechrau cael effaith. Er enghraifft, o ran Addasrwydd i Ymarfer, rydym wedi bron â threblu nifer y gwrandawiadau, wedi haneru'r amser a gymer ymchwiliadau ac wedi haneru'r amser a gymerir i osod gorchymyn interim er mwyn diogelu cleifion a'r cyhoedd tra byddwn yn ymchwilio i achos.

Rydym wedi bod yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol i Adroddiad yr ymchwiliad annibynnol i'r gofal a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford (Adroddiad Francis). Gan edrych i'r dyfodol, er mwyn sicrhau bod diogelu'r cyhoedd a chleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn, mae'n rhaid i ni atgyfnerthu ein proffil cyhoeddus er mwyn i'r cyhoedd ddeall ein rôl yn well ac mae'n rhaid i ni weithio'n fwy rhagweithiol gyda rheoleiddwyr eraill. Rydym yn cydnabod ein bod yn wynebu heriau sylweddol ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio i safon uchel.

**Mark Addison CB**
**Cadeirydd, NMC**
**25 Medi 2013**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd, NMC**
**25 Medi 2013**

## Adolygiad o berfformiad

1 Mae ein cynllun corfforaethol yn nodi tri nod strategol sy'n gysylltiedig â diogelu'r cyhoedd, cydberthnasau a staff agored ac effeithiol, systemau a gweithdrefnau. Mae'r nodau hyn yn llunio ein gweithgareddau ac yn ein galluogi i reoleiddio mewn modd effeithlon ac effeithiol er budd y cyhoedd.

**Nod 1 – Bydd diogelu'r cyhoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd ein gwaith yn seiliedig ar y buddiannau y gallwn eu cynnig i'r cyhoedd ac yn cael ei fesur yn eu herbyn.**

### Cofrestru

2 Mae cadw'r gofrestr o nyrsys a bydwragedd y caniateir iddynt ymarfer yn gyfreithlon yn y DU yn hanfodol i'n nod o ddiogelu'r cyhoedd. Dim ond y sawl sydd wedi profi eu bod yn cyrraedd ein safonau a all gael eu cynnwys ar y gofrestr, neu aros arni. Mae'n anghyfreithlon i nyrs neu fydwraig ymarfer os nad yw wedi'i chynnwys ar ein cofrestr neu os yw eu cofrestriad wedi mynd yn ddi-rym.

3 Ar 31 Mawrth 2013, roedd 673,567 o nyrsys a bydwragedd ar y gofrestr. Gall unrhyw un gadarnhau statws cofrestriad nyrs neu fydwraig unrhyw bryd drwy'r gofrestr ar-lein neu drwy ffonio neu ysgrifennu atom. Ym mis Ionawr 2013, uwchraddiwyd ein cyfleuster 'chwilio'r gofrestr' ar-lein fel y gall aelodau'r cyhoedd chwilio am enw nyrs neu fydwraig a gweld a ydynt yn destun unrhyw gosbau cyfredol neu orchymyn interim neu a yw ei henw wedi cael ei thynnu oddi ar y gofrestr ers 1 Gorffennaf 2008.

4 Ym mis Tachwedd 2012, dechreuwyd ar y gwaith o adolygu ein polisïau a'n prosesau cofrestru. O ganlyniad i hyn, nodwyd pryderon ynglŷn â'r gofynion hyfforddi i ymgeiswyr o wledydd penodol a'n gweithdrefnau ar gyfer dilysu dogfennau adnabod. Er mwyn ymdrin â'r pryderon hyn, rhoddwyd y gorau i brosesu ceisiadau gan ymgeiswyr o'r tu allan i'r UE dros dro ym mis Chwefror 2013, adolygwyd ein gweithdrefnau gweithredol gan ailddechrau prosesu ceisiadau gan ymgeiswyr o'r tu allan i'r UE ym mis Ebrill 2013.

5 Ein nod yw darparu gwasanaeth cofrestru effeithiol a phrydlon, ac rydym wedi pennu targedau clir ar ein cyfer:

- Cofrestru 95 y cant o ymgeiswyr cychwynnol o'r DU nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn pum diwrnod. Yn 2012–2013, cyflawnwyd 99 y cant.

- Cofrestru 95 y cant o ymgeiswyr cychwynnol o'r UE o fewn 5 diwrnod ar ôl iddynt fodloni'r gofynion cofrestru. Yn 2012–2013, cyflawnwyd 96 y cant.

- Cofrestru 95 y cant o ymgeiswyr cychwynnol o'r tu allan i'r UE o fewn 5 diwrnod ar ôl iddynt fodloni'r gofynion cofrestru. Yn 2012–2013, cyflawnwyd 98 y cant yn ystod y misoedd pan oeddem yn prosesu ceisiadau. Y ganran gyfartalog ar gyfer y flwyddyn gyfan, o ystyried y saib mewn prosesu ceisiadau, oedd 74 y cant.

- Ateb 60 y cant o alwadau gwasanaeth cwsmeriaid o fewn 20 eiliad. Yn 2012–2013, cyflawnwyd 58 y cant. Atebwyd 65 y cant o alwadau o fewn 40 eiliad.

**Yswiriant indemniad proffesiynol**

6 Fel y rheoleiddwyr eraill, unwaith y daw'r ddeddfwriaeth i rym, bydd yn ofynnol i ni weithredu system a fydd yn golygu bod dal yswiriant indemniad proffesiynol yn un o amodau cofrestru. Rydym wedi asesu effaith y newid deddfwriaethol hwn ar y nyrsys a'r bydwragedd a gofrestrwn. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Coleg Nyrsio Brenhinol, Coleg Brenhinol y Bydwragedd, Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol a'r Adran Iechyd o ran yr anawsterau y bydd bydwragedd annibynnol, nyrsys practis, a rhai eraill yn eu hwynebu o bosibl i gael yswiriant dichonadwy.

**Addysg a safonau**

7 Mae'n hanfodol gosod safon uchel ar gyfer addysg a hyfforddiant er mwyn sicrhau bod nyrsys a bydwragedd a dderbynnir ar y gofrestr yn ddiogel i ymarfer. Dim ond sefydliadau addysgol sy'n cyrraedd ein safonau y caniateir iddynt roi hyfforddiant yn y DU. Cyhoeddwyd safonau newydd ar gyfer addysg bydwreigiaeth yn 2009 ac addysg nyrsio yn 2010. Bydd y garfan gyntaf o fyfyrwyr nyrsio sydd wedi cwblhau hyfforddiant sy'n seiliedig ar y safonau newydd yn cofrestru â'r NMC yn 2014.

8 Nod ein fframwaith sicrhau ansawdd yw diogelu'r cyhoedd drwy gymeradwyo a monitro rhaglenni addysg a hyfforddiant nyrsys a bydwragedd. Rydym yn gweithio'n agos gyda phrifysgolion i asesu a yw ein safonau yn cael eu cyrraedd. Lle y credwn nad yw darparwyr addysg yn cyrraedd ein safonau, rydym yn cynnal adolygiadau arbennig.

- Rydym wedi cymeradwyo 79 o brifysgolion i ddarparu 999 o raglenni addysg a hyfforddiant.
- Codwyd wyth achos o bryder gyda ni o dan ein proses adolygu arbennig. Cafodd pob un o'r rhain ei asesu a'i flaenoriaethu o fewn 10 diwrnod ar ôl i ni gael ein hysbysu ohonynt. Gweithredwyd ar bob cam gweithredu a chanlyniad y cytunwyd arnynt o ganlyniad i adolygiad arbennig o weithgarwch fel y cytunwyd â'r NMC.
- Rydym yn datblygu fframwaith sicrhau ansawdd cyfunol newydd ar gyfer addysg ac awdurdodau goruchwylio lleol, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol drwy ein Cynhadledd flynyddol ar gyfer Adolygwyr Sicrhau Ansawdd a'n Grŵp Cyfeirio Sicrhau Ansawdd. Rydym wedi cynnal ymarfer caffael i benodi cyflenwr i ddarparu'r fframwaith o 2013-2014.
- Ynghyd â'r rheoleiddwyr eraill rydym wedi bod yn meithrin cydberthnasau â Health Education England a byrddau addysg a hyfforddiant lleol er mwyn sicrhau bod eglurder ynglŷn â'r dirwedd addysg a hyfforddiant sy'n datblygu.

9 Disgwylir i nyrsys a bydwragedd cofrestredig ddilyn *Cod yr NMC: Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer nyrsys a bydwragedd*. Y cod yw sylfaen ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth da, ac mae'n adnodd allweddol o ran diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Mae'n ei gwneud yn glir bod yn rhaid i nyrsys a bydwragedd sicrhau bod gofal cleifion o'r pwys mwyaf iddynt, eu bod yn eu trin fel unigolion ac yn parchu eu hurddas. Bwriedir cynnal adolygiad o'r cod a'r safonau cysylltiedig ar gyfer 2013-2014.

10 Fel rhan o'r gwaith o ganolbwyntio ar ein swyddogaethau rheoleiddio craidd, rydym wedi diweddaru ein gwefan er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng safonau a chanllawiau a gwybodaeth reoliadol. Ar ôl ymgynghoriad helaeth â rhanddeiliaid, tynnwyd ein gwasanaeth cynghori proffesiynol yn ôl o 2 Gorffennaf 2012.

**Ailddilysu**

11 Ar hyn o bryd, er mwyn parhau i fod yn gofrestredig â'r NMC, mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd gyrraedd ein safonau o ran addysg ac ymarfer ôl-gofrestru bob tair blynedd. Erbyn mis Rhagfyr 2015, bwriadwn gyflwyno system o ailddilysu a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd bod nyrsys a bydwragedd yn parhau i gyrraedd ein safonau er mwyn aros ar y gofrestr. Rydym wrthi'n datblygu opsiynau mewn ymgynghoriad â rhanddeiliad a byddwn yn penderfynu ar ein model ailddilysu yn ystod hydref 2013.

**Materion sy'n ymwneud â bydwreigiaeth**

12 Mae ein Pwyllgor Bydwreigiaeth yn parhau i gynnig sylwadau a chyngor arbenigol ar faterion sy'n ymwneud â bydwreigiaeth. Daeth rheolau a safonau diwygiedig i fydwragedd i rym ar 1 Ionawr 2013. Rydym wedi parhau â'r trefniadau monitro chwarterol ar gyfer awdurdodau goruchwylio lleol a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2011, sy'n fodd effeithiol i ragweld problemau a rhannu arfer da.

13 Ar ôl yr adolygiad arbennig o Ymddiriedolaeth Ysbyty Prifysgol Bae Morecambe a gynhaliwyd ar y cyd â'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn 2011, rydym wedi parhau i fonitro cynnydd yr ymddiriedolaeth yn fanwl er mwyn sicrhau diogelwch a lles mamau a'u babanod. Cynhaliwyd ymweliad dilynol gennym ym mis Mehefin 2012 er mwyn adolygu cynnydd yn erbyn ein hargymhellion, a rhoddwyd tystiolaeth i Bwyllgor Iechyd y Cyhoedd a Chraffu Cyngor Sir Cumbria.

**Addasrwydd i ymarfer**


14 Yn ganolog i'n diben rheoleiddio mae diogelu'r cyhoedd rhag nyrsys neu fydwragedd yr amharwyd ar eu haddasrwydd i ymarfer. Mae gennym y pŵer i atal neu gyfyngu ar ymarfer nyrs neu fydwraig yn y DU os yw'n achosi risg i ddiogelwch y cyhoedd.

15 Pan gaiff pryder ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer ei godi gyda ni, fel arfer rydym yn cymryd y camau canlynol:

- Asesiad cychwynnol (sgrinio) o'r honiad neu'r gŵyn, gan gynnwys pennu a oes angen gweithredu ar fyrder.
- Lle y bo angen, ymchwilio i'r honiad neu'r gŵyn a phenderfynu a oes achos i'w ateb (ymchwiliad).
- Lle y bo angen, cynnal gwrandawiad neu gyfarfod i wneud penderfyniad terfynol (dyfarniad) a phennu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd, gan gynnwys unrhyw gosb briodol os penderfynwn yr amharwyd ar addasrwydd i ymarfer.

- Mewn achosion lle ceir risg ddifrifol ac uniongyrchol i glaf neu ddiogelwch y cyhoedd, gallwn gymryd camau ar fyrder drwy osod gorchymyn interim er mwyn atal neu gyfyngu ar ymarfer y nyrs neu'r fydwraig ar unwaith.

16 Dim ond nifer fach iawn o nyrsys a bydwragedd sy'n destun achosion o addasrwydd i ymarfer. 0.6 y cant o'r rhai sydd ar ein cofrestr, gyda llai na 0.1 y cant yn cael cosb. Ar ôl cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion rhwng 2009-2010 a 2010-2011, ymddengys fod nifer y pryderon a godwyd gyda ni yn lleihau. Rydym yn parhau i fonitro hyn yn fanwl ac yn ystyriol iawn o'r posibilrwydd y gall nifer yr atgyfeiriadau gynyddu wrth i ni ddatblygu ein proffil cyhoeddus.




17 Rydym yn parhau i gymryd camau i wella amseroldeb mewn perthynas ag ymdrin ag achosion, ein gwasanaeth cwsmeriaid ac ansawdd y penderfyniadau a wneir gennym. Yn ystod y flwyddyn:

- Mae rhagor o ystafelloedd gwrandawiad ar gael i ni, rydym wedi cynyddu nifer y gwrandawiadau a'r cyfarfodydd a gynhelir i rhwng 28 a 30 bob diwrnod gwaith ac rydym hefyd yn cymryd camau i wneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael.

- Rydym wedi cyflwyno system o benderfyniad panel drwy gytundeb, sef modd i gwblhau achos drwy gytundeb. Os bydd nyrs neu fydwraig yn derbyn yr amharwyd ar ei haddasrwydd i ymarfer, gallwn gytuno ar gosb i'w hystyried gan banel mewn gwrandawiad cyhoeddus. Mae hyn wedi ein galluogi i leihau'r amser a gymerir i gynnal gwrandawiadau yn yr achosion hyn.

- Rydym wedi cyflwyno proses tynnu enw oddi ar y gofrestr o wirfodd sy'n galluogi nyrs neu fydwraig sy'n bodloni'r meini prawf ac sy'n cyfaddef bod ei haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol ac nad yw'n bwriadu parhau i ymarfer, i wneud cais i'w henw gael ei thynnu'n barhaol oddi ar y gofrestr heb orfod cynnal gwrandawiad cyhoeddus llawn, pan fydd hynny er budd y cyhoedd.


- Mewn 98 y cant o achosion ym mis Mawrth 2013, cyflawnwyd ein haddewid o ran gwasanaeth cwsmeriaid, sef hysbysu'r sawl sy'n rhan o achosion addasrwydd i ymarfer o'n penderfyniadau o fewn pum diwrnod gwaith.

- Rydym hefyd wedi recriwtio 175 o aelodau panel newydd ac rydym yn parhau i ddiweddaru a gwella ein cymorth, ein hyfforddiant a'n canllawiau i aelodau a chadeiryddion paneli.

18 Rydym wedi pennu targedau perfformiad clir er mwyn gwella amseroldeb mewn perthynas ag ymdrin ag achosion:

- Gosod gorchmynion interim o fewn 28 diwrnod ar ôl i achos ddod i law lle mae angen gweithredu ar fyrder er mwyn diogelu'r cyhoedd. Cyrhaeddwyd y targed hwn ym mis Mawrth 2013.

- Ymdrin â 90 y cant o achosion drwy'r cam ymchwilio o fewn 12 mis ar ôl i achos ddod i law. Rydym wedi gweld perfformiad yn gwella'n gyson o 42 y cant ym mis Ebrill 2012 i 86 y cant ym mis Mawrth 2013. Cymerwyd 11 mis ar gyfartaledd i gwblhau ymchwiliadau yn 2012-2013.




- Ymdrin â 90 y cant o achosion drwy'r cam dyfarnu i ddiwrnod cyntaf gwrandawiad neu gyfarfod o fewn chwe mis i gwblhau'r ymchwiliad. Cyflawnwyd 39 y cant yn 2012-2013 a rhagwelwn y byddwn yn cyrraedd y targed erbyn mis Rhagfyr 2014. Cymerwyd 8.4 mis ar gyfartaledd yn 2012-2013.

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

19 Rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn ystod y flwyddyn:

- Sefydlwyd Fforwm yr Hyrwyddwyr Amrywiaeth, sydd â'r nod o ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth yn niwylliant y sefydliad, a chynhaliwyd tri chyfarfod o'r Fforwm.

- Ymgorfforwyd cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn nodau y gallai cyfarwyddiaethau unigol eu cyflawni.

- Rhoddwyd hyfforddiant gorfodol mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth i aelodau o staff ac aelodau paneli addasrwydd i ymarfer.

- Rydym yn ceisio atgyfnerthu'r ffordd rydym yn casglu ac yn monitro data ar amrywiaeth gan nyrsys a bydwragedd sydd ar ein cofrestr.

**Nod 2 – Bydd gennym gydberthnasau agored ac effeithiol a fydd yn ein galluogi i weithio er budd y cyhoedd.**

20 Mae *Adroddiad yr ymchwiliad annibynnol i'r gofal a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford* (Adroddiad Francis) yn tynnu sylw at bwysigrwydd codi proffil yr NMC ymhlith cleifion a'r cyhoedd, gan weithio'n agosach gyda rheoleiddwyr eraill ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyflogwyr nyrsys a bydwragedd.

- Cytunwyd ar ein *Hymrwymiad cyhoeddus i ymgysylltu* 2013-2016 sy'n nodi ein nodau ymgysylltu strategol, ein hamcanion a'r cynulleidfaoedd a dargedir gennym.

- Sefydlwyd y Fforwm Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd a chynhaliwyd tri chyfarfod. Mae'r fforwm yn cynnwys dros gant o grwpiau cleifion, eiriolwyr cleifion ac elusennau iechyd. Bu'n fodd effeithiol i gyrraedd cleifion a'r cyhoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth o rôl yr NMC.

- Rydym wedi ymgysylltu'n rheolaidd â rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol ac undebau llafur, ymhlith pethau eraill, er mwyn trafod ac egluro ein priod rolau.

- Ym mis Awst 2012, cyhoeddwyd datganiad ar y cyd â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ynglŷn â gwerthoedd proffesiynol.


- Cymerwyd rhan yng Ngrwpiau Goruchwyliaeth Ansawdd GIG Lloegr er mwyn gwella'r broses o nodi risgiau i ddiogelwch cleifion yn gynnar.

- Cyhoeddwyd *Cyngor a gwybodaeth i gyflogwyr nyrsys a bydwragedd*, wedi'i ddiweddaru, sy'n cynnwys trosolwg o'n prosesau addasrwydd i ymarfer ac yn tynnu sylw at gyfrifoldebau cyflogwyr.

- Ar y cyd â Chyflogwyr y GIG cynhaliwyd dau ddigwyddiad yn Llundain a Leeds ar gyfer uwch nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol adnoddau dynol, a ystyriodd sut y gellid atgyfeirio achosion at yr NMC yn fwy effeithiol.

- Rydym wedi parhau i alw am newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i ni brofi'n systematig iaith nyrsys a bydwragedd a gafodd eu hyfforddi mewn rhannau eraill o'r UE ac sy'n dymuno ymarfer yn y DU. Rydym wedi ysgrifennu at bob un o gyflogwyr y GIG i sicrhau eu bod yn ymwybodol o gyfyngiadau'r ddeddfwriaeth gyfredol. Tynnwyd sylw at gyfrifoldeb cyflogwyr i sicrhau bod gan staff y sgiliau angenrheidiol yn Saesneg i roi gofal.

- Dosbarthwyd cylchlythyrau penodol, rheolaidd dros yr e-bost i tua 14,000 o gleifion ac aelodau o'r cyhoedd, 15,000 o gyflogwyr a rheolwyr, 100,000 o nyrsys a bydwragedd a 24,000 o addysgwyr a myfyrwyr.




21 Rydym yn parhau i ymgysylltu'n agos â'r Adran Iechyd, er enghraifft drwy fynychu cynhadledd y Prif Swyddogion Nyrsio pan lansiwyd strategaeth newydd i nyrsys, bydwragedd a'r rhai sy'n rhoi gofal, sef *Our culture of compassionate care*. Buom yn bresennol hefyd yn Fforwm System Canolbarth Swydd Stafford, a ddygwyd ynghyd nifer o sefydliadau yr oedd gan adroddiad Francis oblygiadau iddynt. Drwy fynychu digwyddiad rheoleiddio blynyddol Llywodraeth yr Alban cawsom gyfle i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd o'r Alban. Cynhaliwyd ein gwrandawiad blynyddol ynglŷn ag atebolrwydd gyda'r Pwyllgor Dethol ar Iechyd ar 16 Hydref 2012 a chyhoeddwyd yr adroddiad ar 6 Mawrth 2013. Rydym yn cydnabod bod ymgysylltu â phedair gwlad y DU a'r ynysoedd yn arbennig o bwysig i ni wrth i bolisïau gofal iechyd barhau i ddatblygu'n wahanol.

**Nod 3 – Staff: Bydd gan ein staff y sgiliau, y wybodaeth a'r systemau ategol sydd eu hangen i'n helpu i ddarparu gwasanaethau ardderchog i'r cyhoedd a'r bobl a reoleiddir gennym.**

22 Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod gennym y strwythur sefydliadol cywir i gyflawni ein diben rheoleiddio craidd a'r gwelliannau mewn perfformiad.

- Cynhaliwyd ymarfer ad-drefnu mewnol mawr ac rydym wedi penodi cyfarwyddwyr yn bennaeth ar bob un o'r pum cyfarwyddiaeth newydd ac wedi atgyfnerthu ein harweinyddiaeth ymhellach drwy benodi cyfarwyddwyr cynorthwyol newydd. Trefnwyd gweithdai rheoli newid ar gyfer rheolwyr a staff er mwyn cynorthwyo yn y broses newid.

- Er mwyn ategu gwelliannau yn y ffordd yr ymdrinnir ag achosion, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn recriwtio i'n cyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer, gan leihau ein dibyniaeth ar staff dros dro.

- Adolygwyd cyfweliadau ymadael staff er mwyn canfod y rhesymau dros drosiant gwirfoddol, ac mae adolygiad o'n pecyn gwobrwyo i staff yn mynd

rhagddo. Fodd bynnag, yn rhannol oherwydd yr ymarfer ad-drefnu, erys trosiant staff yn uchel, sef cyfartaledd blynyddol treigl o 33 y cant.

- Rydym yn parhau i ddarparu hyfforddiant a datblygiad perthnasol i'n staff, ac rydym wedi datblygu ymddygiadau sefydliadol yr ydym yn eu hymgorffori yn ein proses adolygu perfformiad a datblygiad.

23 Sicrhau bod sefydlogrwydd ariannol yn parhau'n flaenoriaeth. Derbyniwyd grant o £20 miliwn gan yr Adran Iechyd er mwyn ein galluogi i flaenoriaethu gwell perfformiad o ran ein swyddogaethau sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer. Rydym wedi sefydlu Bwrdd Effeithlonrwydd Corfforaethol er mwyn ysgogi arbedion effeithlonrwydd pellach ym mhob rhan o'r sefydliad. Yn sgil ymgynghoriad â'r cyhoedd, penderfynodd y Cyngor ym mis Hydref 2012 i gynyddu'r ffi gofrestru flynyddol i £100 o fis Chwefror 2013. Ochr yn ochr â'r penderfyniad hwn, rydym wedi rhoi strategaeth ariannol a phroses gyllidebu gadarn ar waith sy'n gyson â'n proses cynllunio busnes. Rydym wedi ymrwymo i adolygu'r ffi gofrestru bob blwyddyn. Cynhaliwyd yr adolygiad cyntaf o'r fath ym mis Mawrth 2013, a chytunodd y Cyngor i barhau i godi ffi o £100. Bwriedir cynnal yr adolygiad nesaf ym mis Mawrth 2014. Byddai unrhyw gynnydd yn y ffi gofrestru yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad.

**Rheoli ein proses drawsnewid**

24 Yn dilyn yr Adolygiad Strategol, sefydlwyd Bwrdd Portffolio Rheoli Newid er mwyn cydgysylltu'r holl weithgareddau i sicrhau gwelliannau sefydliadol, gan gynnwys mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan y PSA. Rydym wedi cwblhau'r flwyddyn gyntaf o'n rhaglen drawsnewid a dywedodd y PSA y bydd yn cymryd o leiaf ddwy flynedd i'w chyflawni. Dros y 12 mis diwethaf mae'r Bwrdd wedi goruchwylio amrywiaeth o waith gyda'r nod o fynd i'r afael â'r argymhellion yn llawn. Fel rhan o'n proses sefydlogi ariannol, mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, y prosiect gweithredu ffioedd.

25 Rydym wedi canolbwyntio cryn dipyn ar ein holl weithgareddau rheoleiddio. Mae'r Bwrdd yn parhau i oruchwylio'r cynlluniau gwella cofrestru ac addasrwydd i ymarfer. Mae'r rhain wedi cynnwys gweithredu'r prosiect tynnu oddi ar y gofrestr yn wirfoddol yn llwyddiannus yn y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer sy'n caniatáu i nyrsys neu fydwragedd nad ydynt yn dymuno ymarfer, neu na allant ymarfer mwyach, dynnu eu henw oddi ar y gofrestr, gan sicrhau y caiff y cyhoedd ei ddiogelu heb fod angen cynnal ymchwiliadau na gwrandawiadau panel llafurus a chostus. At hynny, rydym wrthi'n rheoli'r broses o weithredu gofynion yswiriant indemniad proffesiynol yn sgil newidiadau mewn deddfwriaeth Ewropeaidd.

26 Ym mis Gorffennaf. 2012, cymeradwyodd y Cyngor ein strategaeth TGCh. Rydym bellach wedi dechrau ei rhoi ar waith ac yn ystod y flwyddyn gyntaf, rydym wedi canolbwyntio ar sefydlogi systemau corfforaethol allweddol, yn arbennig Wiser, sef ein system gofrestru, a diweddaru ein systemau ategol. Rydym hefyd wedi datblygu cynllun gweithredu wedi'i dargedu ar gyfer diogelu gwybodaeth, ac rydym yn gwneud cynnydd o ran ei roi ar waith.

27 Mae'r Bwrdd hefyd wedi goruchwylio'r broses o benodi 11 o aelodau Cyngor ar ôl i orchymyn cyfansoddiad newydd gael ei osod gerbron y Senedd. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliwyd adolygiad o'n trefniadau llywodraethu. Mae aelodau'r Cyngor a benodwyd ym mis Mai wedi bod yn awyddus i fabwysiadu argymhellion yr

adolygiad. Mae hyn wedi arwain at strwythur llywodraethu symlach ac iddo fwy o ffocws ynghyd ag eglurder ynghylch cyfrifoldebau'r Cyngor a'r weithrediaeth a'r berthynas rhyngddynt, a thrwy hynny wedi gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd prosesau gwneud penderfyniadau drwy'r sefydliad cyfan.

28 Mae rhagor o waith i'w wneud dros y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y Bwrdd yn parhau i oruchwylio'r broses o gyflwyno cynlluniau gwella ym maes Cofrestriadau ac Addasrwydd i Ymarfer a bydd yn pennu cyfeiriad nifer o brosiectau newydd mawr ac yn eu goruchwylio, gan gynnwys:

- Datblygu a threialu ein fframwaith ailddilysu arfaethedig.
- Adolygu *Cod yr NMC: Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer nyrsys a bydwragedd*.
- Datblygu strategaeth ddata gorfforaethol.
- Adolygu ein trefniadau cyflog staff, graddio a phensiynau.

## Cynllun Strategol

29 Mae Cynllun Corfforaethol yr NMC ar gyfer 2013-2016 yn nodi'r hyn y bwriadwn ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf a sut y byddwn yn mesur ein llwyddiant. Ei nod yw sicrhau ein bod yn cynnal ein busnes yn fwy effeithlon ac effeithiol, fel y gallwn gyflawni ein prif rôl yn well, sef diogelu cleifion a'r cyhoedd yn y DU, drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd.

30 Nodir ein nodau a'n hamcanion corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2013-2016 isod.

**Nod 1: Bydd diogelu'r cyhoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd ein gwaith yn seiliedig ar y buddiannau y gallwn eu cynnig i'r cyhoedd ac yn cael ei fesur yn eu herbyn.**

- Amcan 1: Byddwn yn diogelu iechyd a lles y cyhoedd drwy gadw cofrestr gywir a hygyrch o bob nyrs a bydwraig y mae'n ofynnol iddynt ddangos eu bod yn parhau i fod yn addas i ymarfer.

- Amcan 2: Byddwn yn gosod safonau priodol o ran addysg ac ymarfer ac yn asesu ansawdd rhaglenni addysg a threfniadau goruchwylio bydwragedd fel y gallwn fod yn sicr bod pob un o'r rhai sydd ar ein cofrestr yn addas i ymarfer fel nyrsys a bydwragedd.

- Amcan 3: Byddwn yn cymryd camau buan a theg i ymdrin ag unigolion yr amheuir eu priodoldeb neu eu gallu i roi gofal diogel, fel y gall y cyhoedd ymddiried yn ansawdd a safonau gofal a roddir gan nyrsys a bydwragedd.

- Amcan 4: Byddwn yn gwella ein dealltwriaeth a'n defnydd o ddata ar amrywiaeth, gan ymgorffori arfer da ynglŷn â chydraddoldeb, fel ein bod yn gynhwysol ac yn trin pobl yn deg.

**Nod 2: Bydd gennym gydberthnasau agored ac effeithiol a fydd yn ein galluogi i weithio er budd y cyhoedd.**

- Amcan 5: Byddwn yn cynnal cydberthnasau rheoleiddio agored ac effeithiol â chleifion a'r cyhoedd, rheoleiddwyr eraill, cyflogwyr a'r proffesiynau sy'n ein helpu i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad nyrsys a bydwragedd er mwyn sicrhau bod gofal pobl o'r pwys mwyaf iddynt, eu bod yn eu trin fel unigolion ac yn parchu eu hurddas.

- Amcan 6: Byddwn yn datblygu ac yn cynnal prosesau cyfathrebu adeiladol ac ymatebol fel y bydd pobl yn cael gwybodaeth dda ynglŷn â'r safonau gofal y dylent eu disgwyl gan nyrsys a bydwragedd a rôl yr NMC pan na chyrhaeddir y safonau.

**Nod 3: Bydd gan ein staff y sgiliau, y wybodaeth a'r systemau ategol sydd eu hangen i'n helpu i ddarparu gwasanaethau ardderchog i'r cyhoedd a'r bobl a reoleiddir gennym.**

- Amcan 7: Byddwn yn datblygu polisïau effeithiol, gwasanaethau effeithlon a phrosesau llywodraethu sy'n helpu ein staff i gyflawni ein holl swyddogaethau.

- Amcan 8: Byddwn yn meithrin diwylliant o ragoriaeth drwy ddenu, cadw a datblygu staff o safon uchel i ddarparu ein gwasanaethau.

31 Dros y tair blynedd nesaf, mae'n bwysig ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ein rôl ac yn parhau i gyflawni ein swyddogaethau statudol craidd i safon uchel. Yng nghyd-destun y gwelliannau gweithredol parhaus sydd eu hangen a'r gwersi sy'n deillio o adroddiad Francis, mae'r heriau yn fawr. Rydym wedi nodi chwe ffrwd waith allweddol ar gyfer y tair blynedd nesaf:

- Parhau i wella prosesau addasrwydd i ymarfer.
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol.
- Adolygu polisïau ac arfer cofrestru'n barhaus
- Gweithredu model er mwyn sicrhau bod nyrsys a bydwragedd yn parhau i fod yn addas i ymarfer.
- Cyflwyno strategaeth ymgysylltu gadarn.
- Parhau i gyflwyno strategaethau Adnoddau Dynol a moderneiddio TGCh.

32 Drwy ganolbwyntio ar lwyddiant yn y chwe maes hyn a chanolbwyntio bob amser ar ein rôl ganolog i ddiogelu'r cyhoedd, gall yr NMC edrych ymlaen at ddyfodol lle mae'n rheoleiddiwr o'r radd flaenaf.

## Adolygiad ariannol

33 Roedd yr adnoddau net i mewn ar gyfer y flwyddyn yn gwneud cyfanswm o £10.089 miliwn (2011-2012: adnoddau net allan [£8.41 miliwn]).

34 Yn ystod y flwyddyn cafwyd incwm o £73.355 miliwn (2011–2012: £52.781 miliwn) a oedd yn cynnwys incwm ffioedd gwerth £52.080 miliwn (2011–2012: £51.581 miliwn), grant o £20 miliwn gan yr Adran Iechyd ac incwm buddsoddi gwerth £1.275 miliwn (2011–2012: £1.2 miliwn).

35 Bwriedir i'r grant o £20 miliwn gynnig y sefydlogrwydd ariannol er mwyn cyflawni dangosydd perfformiad allweddol dyfarnu'r NMC ynglŷn ag Addasrwydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014, cael gwared ar yr ôl-groniad hanesyddol o achosion sy'n ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014, a sicrhau'r isafswm lefelau mewn cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg erbyn mis Ionawr 2016. Talwyd y grant ym mis Ionawr 2013 a chafodd ei gydnabod yn llawn fel refeniw cyfyngedig yn 2012-2013. Caiff y grant ei wario mewn rhandaliadau misol cyfartal dros gyfnod y grant, a bydd balans y cronfeydd cyfyngedig wrth gefn yn unol â hynny bob mis, gan ddechrau ym mis Chwefror 2013, gyda'r swm terfynol yn cael ei wario ym mis Rhagfyr 2015.

36 Er mwyn ymdrin â lefel gynyddol a mwy cymhleth ein llwyth gwaith o achosion sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer, rhagwelwn y byddai ein gwariant yn parhau i gynyddu yn 2012-2013 a thu hwnt. Nid oedd yn gynaliadwy parhau â'r lefel hon o weithgarwch o fewn ein lefel incwm flaenorol - ni fyddai dim dewis gennym ond cwtogi ar ein gweithgarwch sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer er mwyn i ni fantoli'r gyllideb. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu na fyddem yn cyflawni ein dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd. Am y rheswm hwn, ymgynghorodd y Cyngor yn ystod haf 2012 ynglŷn â chynyddu'r ffi a hefyd gweithiodd yn helaeth gyda'r Adran Iechyd ar opsiynau ar gyfer ffioedd. Gwnaeth y Cyngor y penderfyniad anodd ym mis Hydref 2012 i gynyddu ein ffi gofrestru flynyddol o £76 i £100, yn weithredol o 1 Chwefror 2013, a derbyniodd grant o £20 miliwn a gynigiwyd gan yr Adran Iechyd.

37 Yn ystod y flwyddyn gwariwyd cyfanswm o £63.266 miliwn (2011–2012: £61.191 miliwn). Dadansoddir hyn ymhellach yn nodyn 10 i'r cyfrifon.

38 Mae'r cronfeydd wrth gefn gwerth £54.5 miliwn ar 31 Mawrth 2013 yn cynnwys gwerth y brydles ar swyddfa'r NMC yn 23 Portland Place, sy'n cynnwys cymal defnydd cyfyngedig. Cafodd y brydles ei hailbrisio ar 31 Mawrth 2013 ar sail defnydd presennol ac roedd yn werth £14.25 miliwn.

39 Ar 31 Mawrth 2013 mae cyd-drafodaethau â CThEM yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r posibilrwydd o ad-dalu treth incwm a thaliadau Yswiriant Gwladol a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol mewn perthynas â phanelwyr Addasrwydd i Ymarfer. Roedd hyn yn dilyn dyfarniad gan CThEM ym mis Ebrill 2012 fod CThEM bellach yn ystyried nad yw panelwyr Addasrwydd i Ymarfer yr NMC yn cael eu dosbarthu'n ddeiliaid swydd ac felly'n gyflogeion at ddibenion treth incwm ac Yswiriant Gwladol mwyach, ond ei fod yn ystyried eu bod yn hunangyflogedig. Nid yw swm yr ad-daliad posibl wedi'i gadarnhau eto ac felly nid yw wedi'i ddatgelu fel ased wrth gefn yn y datganiadau ariannol.

## Polisi cronfeydd wrth gefn

40 O dan bolisi'r NMC ynglŷn â chronfeydd wrth gefn tan fis Medi 2012 bu'n ofynnol i gronfeydd rhydd wrth gefn gyfateb i wariant gweithredu wedi'i gyllidebu dros dri mis o leiaf, ynghyd â swm am ein cyfran amcangyfrifedig o'r diffyg pensiwn yn seiliedig ar y prisiad diweddaraf o'r cynllun pensiwn.

41 Cronfeydd rhydd wrth gefn yw'r rhan honno o gronfeydd digyfyngiad elusen sydd ar gael i'w gwario'n rhydd, hynny yw, heb gynnwys cronfeydd cyfyngedig, asedau sefydlog diriaethol a symiau sydd wedi'u dynodi ar gyfer gwariant hanfodol yn y dyfodol.

42 Ym mis Medi 2012 cytunodd y Cyngor i newid ein polisi ynglŷn â chronfeydd wrth gefn a mabwysiadu dull gweithredu yn seiliedig ar risg. Mae'r polisi diwygiedig yn nodi y dylai lefel ein cronfeydd rhydd wrth gefn fod yn seiliedig ar asesiad o effaith ariannol y risgiau a wynebir gan yr NMC, ynghyd â swm am ein cyfran amcangyfrifedig o'r diffyg pensiwn. Ar ôl cymeradwyo'r asesiad a mesur y prif risgiau, cytunodd y Cyngor y dylai'r elfen o'r cronfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar risg (a elwir hefyd yn 'gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd') gael ei chynnal o fewn amrediad o rhwng £10 miliwn ac £20 miliwn.

43 Caiff y polisi ynglŷn â chronfeydd wrth gefn ei adolygu bob blwyddyn gan y Cyngor fel rhan o'r broses cynllunio busnes ac fel elfen graidd o strategaeth ariannol yr NMC. Ym mis Mawrth 2013 adolygodd y Cyngor y risgiau sy'n sail i'r polisi ynglŷn â chronfeydd wrth gefn gan ddiwygio'r amrediad targed o gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd o fewn amrediad o £10 miliwn i £25 miliwn.

44 Ystyrir bod y lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn ddigon ar gyfer blaenoriaethau gweithredu a gofynion cyfalaf gweithio'r NMC os bydd digwyddiad mawr annisgwyl, tra bod arian amgen yn cael ei sicrhau.

45 Wrth benderfynu derbyn grant o £20 miliwn gan yr Adran Iechyd, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i adfer y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd i isafswm o £10 miliwn erbyn mis Ionawr 2016. Mae'r amcanestyniadau ariannol y mae'r swm hwn yn seiliedig arnynt yn cynnwys cynyddu'r ffi gofrestru flynyddol i £120 o fis Ebrill 2015. Caiff yr angen i wneud hyn ei ystyried fel rhan o'r adolygiad nesaf o'r ffi flynyddol ym mis Mawrth 2014. Byddai unrhyw gynnydd yn y ffi gofrestru flynyddol yn destun ymgynghoriad.

46 Roedd cronfeydd rhydd wrth gefn yr NMC yn werth £15.276 miliwn ar 31 Mawrth 2013 (£23.133 miliwn ar 31 Mawrth 2012), ac roedd y cronfeydd wrth gefn a oedd ar gael yn rhydd ar 31 Mawrth 2013 (heb gynnwys cyfran amcangyfrifedig yr NMC o'r diffyg pensiwn), yn werth £7.4 miliwn (£14.1 miliwn ar 31 Mawrth 2012). Nid yw'r lefel hon o gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd yn unol â'n polisi ynglŷn â chronfeydd wrth gefn, sef cynnal cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd o fewn amrediad o £10 miliwn i £25 miliwn. Yn ôl canllawiau'r Comisiwn Elusennau, gellir lleihau cronfeydd rhydd wrth gefn yn y byrdymor o'r lefel sy'n ofynnol o dan y polisi, ond dim ond mewn amgylchiadau lle ceir cynllun eglur a chadarn i'w hadfer i'r lefel ofynnol. Bydd y strategaeth ariannol y cytunwyd arni gan y Cyngor yn 2012, y penderfyniad i gynyddu lefel y ffi a grant yr Adran Iechyd yn adfer y cronfeydd wrth gefn i'r lefel ofynnol. Caiff cynnydd tuag at gyflawni ein targed ar gyfer y cronfeydd wrth gefn ei adolygu gan y Cyngor bob mis.

**Polisi buddsoddi**

47 Mae gan yr NMC y pŵer i fuddsoddi ei gronfeydd dros ben fel y gwêl yn briodol er mwyn cynhyrchu incwm. Ar hyn o bryd mae gan yr NMC bolisi buddsoddi ffurfiol, sy'n golygu mai dim ond buddsoddiadau â risg isel, os o gwbl, y gellir eu gwneud.

48 Cedwir cronfeydd yr NMC yng nghyfrifon adneuo llog sefydlog pump o fanciau stryd fawr y DU. Yn 2012–2013 cynhyrchwyd refeniw o £1.275 miliwn (2011–2012: £1.2 miliwn).

**Asedau sefydlog**

49 Rhoddir gwybodaeth am newidiadau i asedau sefydlog diriaethol yn nodyn 13 i'r cyfrifon. Cost yr ychwanegiadau i asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn oedd £1.674 miliwn.

50 Y prif brosiect cyfalaf a gynhaliwyd yn ystod 2012-2013 oedd troi swyddfeydd o dan brydles yn 20 Old Bailey yn lleoliad penodol ar gyfer gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer gyda 12 o ystafelloedd. Cost net y prosiect hwn oedd £1.3 miliwn.

**Mark Addison CB**
**Cadeirydd**
**NMC**
**25 Medi 2013**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**NMC**
**25 Medi 2013**

## Adroddiad cydnabyddiaeth

51 Archwilir yr agweddau ariannol ar yr adroddiad hwn gan archwilwyr annibynnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

**Lwfansau a threuliau aelodau'r Cyngor**

52 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC ac ef sydd â'r awdurdod terfynol i wneud penderfyniadau fel y'i disgrifir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae aelodau'r Cyngor yn ymddiriedolwyr yr NMC.

53 Yr Athro Judith Ellis, MBE oedd Dirprwy Gadeirydd y Cyngor o 1 Ebrill 2012 hyd at 10 Medi 2012. Mark Addison CB oedd Cadeirydd penodedig y Cyngor yn weithredol o 10 Medi 2012.

54 Nid yw aelodau'r Cyngor yn cael cydnabyddiaeth am eu gwasanaeth ond maent yn cael lwfans blynyddol o £12,000 yn seiliedig ar y gofyniad bod aelodau yn treulio dau neu dri diwrnod y mis ar fusnes yr NMC. Mae'r Cadeirydd yn cael lwfans blynyddol o £48,000 yn seiliedig ar y gofyniad i dreulio dau ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd ar fusnes yr NMC. Telir lwfans presenoldeb o £260 y dydd ar gyfer gweithgarwch hyfforddi a sefydlu cyn dechrau'r penodiad.

55 At hynny, lle mae aelodau'r Cyngor yn eistedd fel Cadeirydd Panel Apelio Cofrestriadau maent yn cael lwfans dyddiol o £340, a ffi ddarllen ddyddiol o £290 yn ôl y gofyn, am waith a wneir yn rhinwedd y swydd hon.

56 Talwyd cyfanswm o £198,871 mewn lwfansau yn 2012–2013 (2011–2012: £200,000). Rhoddir manylion llawn y symiau a dalwyd yn y tabl ar dudalen 20.

57 Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig[1] i unrhyw aelod o'r Cyngor yn ystod 2012-2013.

58 Telir lwfansau i aelodau'r Cyngor a'i bwyllgorau drwy gyflogres ar wahân lle y didynnir symiau ar gyfer treth incwm ac Yswiriant Gwladol. Ad-delir treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth yr NMC i aelodau.

59 Lle y cynhelir cyfarfodydd yn Llundain, ystyrir bod treuliau yn fuddiant mewn da sy'n drethadwy. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm a'r Yswiriant Gwladol sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE â CThEM. Yn 2012–2013, darparwyd £26,000 ar gyfer yr atebolrwydd hwn i dalu treth mewn perthynas ag aelodau'r Cyngor (2011–2012: £25,517). Ni ellir datgelu'r dreth sy'n daladwy ar fuddiannau mewn da tybiedig ar gyfer pob aelod unigol o'r Cyngor, gan fod cyfrifiad cyffredinol yn cael ei baratoi yn seiliedig ar gyfanswm y treuliau a chyfran aelodau'r Cyngor ac aelodau partner pwyllgorau.

60 Mae'r treuliau lle mae atebolrwydd i dalu treth wedi'u cynnwys yn y tabl canlynol.

---

[1] Mae taliadau arbennig yn yr enghraifft hon yn cyfeirio at daliadau diswyddo arbennig a dalwyd i gyflogeion ac eraill sy'n uwch na'r gofynion statudol neu gytundebol arferol pan fyddant yn gadael cyflogaeth boed hynny pan fyddant yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n dod i gytundeb i derfynu eu contract. Mae'n rhaid i daliadau diswyddo arbennig bob amser gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM.

| Aelodau'r Cyngor | **Lwfans a dalwyd i'r aelod 2012-2013 (£)** | Lwfans a dalwyd i'r aelod 2011-2012 (£) | **Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2012 – 2013 (£)** | Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2011 – 2012 (£) |
|---|---|---|---|---|
| Mr M Addison – Cadeirydd[2] | **26,800** | – | **333** | – |
| Mrs A Aitken | **12,000** | 12,000 | **3,787** | 5,207 |
| Dr K Bharj OBE | **12,000** | 12,000 | **5,155** | 4,578 |
| Yr Athro J Ellis MBE[3] | **30,000** | 12,000 | **729** | – |
| Mrs J Fletcher[4] | **2,000** | 12,000 | **827** | 3,373 |
| Yr Athro T Hazell[5] | **–** | 48,000 | **1,062** | 16,711 |
| Mrs S Hooton[6] | **9,633** | – | **1,943** | – |
| Mrs L Jacobs[7] | **21,895** | 12,000 | **4,270** | 2,790 |
| Mrs G Nelson[8] | **–** | 11,000 | **–** | 2,739 |
| Mr G Owen[9] | **14,910** | 12,000 | **4,112** | 2,172 |
| Ms N Patterson[10] | **9,633** | – | **2,085** | – |
| Mr D Pyle | **12,000** | 12,000 | **1,994** | 1,115 |
| Mrs C Rees-Williams | **12,000** | 12,000 | **1,727** | 2,190 |
| Yr Athro M Renfrew[11] | **–** | 9,000 | **–** | 2,519 |
| Ms R Sawtell | **12,000** | 12,000 | **897** | 694 |
| Mrs B Teuten | **12,000** | 12,000 | **430** | 433 |
| Yr Athro J Tunstill | **12,000** | 12,000 | **–** | 26 |

61 Mae aelodau partner, sef aelodau nad ydynt yn aelodau'r Cyngor ond sy'n aelodau pwyllgorau, yn cael lwfans presenoldeb dyddiol o £260 a threuliau teithio rhesymol.

62 Julia Drown, aelod partner, oedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio hyd at fis Mai 2012. Yn 2012–2013, cafodd lwfansau presenoldeb gwerth £1,300 yn rhinwedd y swydd hon (2011–2012: £2,080), a swm o £291 am dreuliau yr aethpwyd iddynt ac yr ystyriwyd eu bod yn fuddiant mewn da (2011–2012: £248). Parhaodd i fod yn aelod partner ar y Pwyllgor Archwilio a chafodd lwfansau presenoldeb gwerth £1,560 yn rhinwedd y swydd hon, a swm o £342 am dreuliau yr aethpwyd iddynt

[2] Penodwyd Cadeirydd y Cyngor 10 Medi 2012.
[3] Dirprwy Gadeirydd y Cyngor 1 Ebrill hyd at 10 Medi 2012. Yn ystod 2012-13 talwyd lwfans blynyddol yr ymddiriedolwyr gwerth £12,000 i'r Athro Ellis a thalwyd £18,000 i Brifysgol Glannau'r De, Llundain mewn perthynas â'i gwasanaeth yn ystod ei chyfnod fel Ddirprwy Gadeirydd
[4] Ymddiswyddodd 31 Mai 2012.
[5] Cadeirydd y Cyngor hyd at 31 Mawrth 2012.
[6] Penodwyd yn weithredol o 12 Mehefin 2012.
[7] Mae'n cynnwys taliadau lwfans gwerth £9,895 mewn perthynas â gwaith a wnaed fel Cadeirydd y Panel Apeliadau Cofrestru.
[8] Ymddiswyddodd 29 Chwefror 2012.
[9] Mae'n cynnwys taliadau lwfans gwerth £2,910 mewn perthynas â gwaith a wnaed fel Cadeirydd y Panel Apeliadau Cofrestru.
[10] Penodwyd yn weithredol o 12 Mehefin 2012.
[11] Rhoddwyd y gorau i'r swydd 31 Rhagfyr 2011.

ac yr ystyriwyd eu bod yn fuddiant mewn da. Drwy gydol 2012-2013, parhaodd i fod yn un o Ymddiriedolwyr y Gronfa Bensiwn ac yn rhinwedd y swydd hon cafodd lwfansau presenoldeb gwerth £1,560 (2011-2012: £1,820), a swm o £382 am dreuliau yr ystyriwyd eu bod yn fuddiant mewn da (2011–2012: £99).

**Dulliau a ddefnyddir i asesu perfformiad aelodau**

63 Cytunodd y Cyngor ar y system arfarnu ar gyfer ei aelodau yn 2010. Mae'r system yn seiliedig ar gymhwysedd, fel sy'n wir am lawer o systemau a ddefnyddir i adolygu aelodau bwrdd. Mae aelodau yn cwblhau ffurflen hunanarfarnu flynyddol ac yn cyfarfod â'r Cadeirydd i gael adborth a nodi unrhyw anghenion hyfforddiant. Fodd bynnag, yn sgil penderfyniad yr Adran Iechyd i ailgyfansoddi'r Cyngor, ni chynhaliwyd arfarniadau yn ystod 2012-2013. Caiff system arfarnu ei datblygu ar gyfer aelodau'r Cyngor, a ymgymerodd â'i swydd yn weithredol o 1 Mai 2013.

**Cydnabyddiaeth ac asesiad perfformiad yr Uwch Dîm Rheoli**

64 Mae'r uwch dîm rheoli (a elwir yn grŵp y Cyfarwyddwyr) yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a chyfarwyddwyr. Nid ydynt yn aelodau o'r Cyngor nac yn ymddiriedolwyr yr NMC.

65 Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw'r unig gyflogai a benodir yn uniongyrchol gan y Cyngor ac sy'n atebol iddo ac mae ganddo awdurdod i wneud penderfyniadau i'r graddau ag y'i disgrifir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel y'i dirprwywyd gan y Cyngor. Felly yr unig fanylion am gydnabyddiaeth a ddatgelir yn llawn yw rhai'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ystod 2012-2013.

66 Caiff cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr ei hadolygu bob blwyddyn. Mae grŵp y Cyfarwyddwyr yn cynnwys cyfarwyddwyr sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Mae unrhyw gynnydd mewn tâl wedi bod yn seiliedig yn hanesyddol ar y gyfradd a ddyfernir i'r unigolyn drwy broses yr adolygiad blynyddol o berfformiad a datblygiad, a gynhelir ym mis Ebrill. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynghori'r Cadeirydd ar gydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd; Yna mae'n cynghori'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ar gydnabyddiaeth aelodau grŵp y Cyfarwyddwyr. Yn ystod 2012-2013, roedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynnwys tri aelod o'r Cyngor ac un aelod annibynnol, a gadeiriodd y pwyllgor. Caiff rolau'r cyfarwyddwyr eu meincnodi o bryd i'w gilydd gan drydydd partïon a rhoddir y wybodaeth hon i'r Pwyllgor.

67 Yn 2012–2013 cafodd cyflog pob aelod o staff ei rewi, gan gynnwys aelodau grŵp y Cyfarwyddwyr, ac eithrio'r staff yn y ddau fand cyflog isaf y dyfarnwyd iddynt gynnydd o 2 y cant nad oedd yn gysylltiedig â pherfformiad. Cafodd cyflog ei rewi o ystyried yr hinsawdd ariannol heriol a'r cyfyngiad ar gyflog a welwyd mewn sectorau tebyg.

68 Mae contract cyflogaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill barti neu'r llall roi chwe mis o rybudd er mwyn terfynu'r contract. O ran uwch reolwyr mae'n ofynnol iddynt roi tri mis o rybudd.

69 Roedd Jackie Smith yn Brif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro hyd at 7 Hydref 2012 ac fe'i penodwyd i swydd barhaol Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd am gyfnod o flwyddyn, yn weithredol o 8 Hydref 2012. Fe'i penodwyd i'r swydd barhaol ar sail barhaol, yn weithredol o 19 Mehefin 2013. Ei chydnabyddiaeth yn

2012–2013 oedd £151,582 (2011–2012: £45,194 am y cyfnod o 16 Rhagfyr 2011 hyd at 31 Mawrth 2012 pan oedd yn Brif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro).

70 Mae Jackie Smith yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn yr NMC (gweler nodyn 11). Mae manylion sefyllfa ei phensiwn fel a ganlyn:

- Roedd y cynnydd gwirioneddol yn ystod 2012-2013 yn ei phensiwn yn 60 oed rhwng £0 a £2,500 y flwyddyn (2011-2012: rhwng £0 a £2,500).

- Pe bai'n derbyn yr uchafswm taliad arian parod di-dreth yn 60 oed, byddai'r cynnydd gwirioneddol yn ystod 2012-2013 yng ngwerth y cyfandaliad hwn ar 31 Mawrth 2013 rhwng £10,000 a £12,500 a byddai'r cynnydd gwirioneddol yn ei phensiwn gweddilliol rhwng £0 a £2,500 y flwyddyn.

- Roedd y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2013 rhwng £5,000 a £10,000 y flwyddyn (31 Mawrth 2012 rhwng £0 a £5,000 y flwyddyn). Pe bai'n derbyn yr uchafswm taliad arian parod di-dreth yn 60 oed, byddai gwerth y cyfandaliad hwn ar 31 Mawrth 2013 rhwng £25,000 a £30,000 a byddai hyn yn gadael pensiwn gweddilliol o rhwng £0 a £5,000 y flwyddyn yn 60 oed ar 31 Mawrth 2013.

- Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod buddiannau ar ddechrau'r flwyddyn oedd £63,000.

- Y cynnydd net yn y gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant gan ystyried cyfraniadau'r aelod) yw £56,000.

- Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod buddiannau ar 31 Mawrth 2013 yw £126,000 (31 Mawrth 2012: £63,000).[12]

71 Ni chafodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd unrhyw fuddiannau nad oeddent yn rhai arian parod (buddiannau mewn da) yn 2012-2013.

**Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad aelodau eraill o staff**

72 Mae pob cyflogai yn ymgymryd â chyfnod prawf o chwe mis pan fydd yn dechrau mewn cyflogaeth ac mae'n rhaid iddo/iddi roi rhybudd o un i dri mis yn dibynnu ar radd y swydd.

73 Caiff cydnabyddiaeth pob cyflogai arall ei adolygu bob blwyddyn hefyd. Fel yn achos adolygiadau o gyflog cyfarwyddwyr, fel arfer gwneir cyswllt uniongyrchol rhwng gradd PDR pob person a'r hyn a ddyfernir iddynt yn yr adolygiad o gyflog. Mae grŵp y Cyfarwyddwyr yn gwneud penderfyniadau bob blwyddyn ynglŷn â'r cynnydd canrannol i'w gymhwyso at wahanol raddau PDR ar gyfer pob cyflogai arall. Wrth wneud hynny, mae grŵp y Cyfarwyddwyr yn ystyried fforddiadwyedd, cost cyfraddau byw, data meincnodi a data recriwtio a chadw yn gyffredinol. Er mwyn sicrhau cysondeb drwy'r sefydliad cyfan, caiff argymhellion rheolwyr ar gyfer graddau PDR eu haelodau tîm eu hadolygu gan reolwr rheolwr ac wedyn cânt eu

[12] Gellir priodoli'r gwahaniaeth rhwng y gwerth trosglwyddo ar ddechrau'r flwyddyn, ynghyd â'r cynnydd gwirioneddol dros y flwyddyn, o gymharu â'r gwerth trosglwyddo hyd at 31 Mawrth 2013 i newidiadau yn y tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo gwerthoedd trosglwyddo ar y ddau ddyddiad gwahanol.

safoni gan grŵp y Cyfarwyddwyr. Mae gan yr NMC ddogfen gyfarwyddyd ar gyflogau sy'n cynnwys manylion llawn y ffordd y mae'r trefniadau cyflog yn gweithio.

74 Yn 2012–2013 roedd y broses PDR yn gweithredu fel arfer. Fodd bynnag, nid oedd yn gysylltiedig â chyflog oherwydd y penderfyniad i rewi cyflog pob aelod o staff (fel y nodir uchod) ac eithrio'r staff yn y ddau fand cyflog isaf y dyfarnwyd iddynt gynnydd o 2 y cant nad oedd yn gysylltiedig â pherfformiad.

75 Mae hawl gan bob cyflogai ymuno â chynllun pensiwn yr NMC o ddechrau eu cyflogaeth. Mae'r cyflogai yn cyfrannu 6 y cant o'i gyflog. Mae'r cyflogwr yn cyfrannu 27.4 y cant i'r cynllun pensiwn, fel y'i nodwyd gan Actwari'r Cynllun. Mae tua 39 y cant o gyflogeion yn aelodau o'r cynllun ar 31 Mawrth 2013.

**Gwahaniaethau cyflog yn yr NMC**

76 Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr yn y sefydliad sy'n cael y cyflog mwyaf a chydnabyddiaeth ganolrifol gweithlu'r sefydliad.

77 Yr unigolyn a gafodd y cyflog mwyaf yn yr NMC yn 2012–2013 oedd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd (Jackie Smith). Ei chydnabyddiaeth am y flwyddyn oedd £151,582. (2011–2012: yr unigolyn a gafodd y cyflog mwyaf oedd y cyn-Brif Weithredwr a Chofrestrydd Dickon Weir-Hughes. Ei gydnabyddiaeth am y cyfnod hyd at 11 Ionawr 2012 oedd £199,675, gan gynnwys taliad cytundebol yn lle rhybudd (£77,500).

78 Roedd hyn yn 5.74 gwaith (2011–2012: 7.25 gwaith) yn fwy na chydnabyddiaeth ganolrifol y gweithle, sef £26,400 (2011–2012: £27,554). Gellir priodoli'r gostyngiad sylweddol yn y gymhareb yn 2012-2013 i'r taliad cytundebol yn lle rhybudd a wnaed i'r cyn-Brif Weithredwr yn 2011-2012 a ddisgrifir uchod. Byddai cyfrifiad yn seiliedig ar gyflog blynyddol llawn arferol ar ei ben ei hun, yn arwain at gymhareb o 5.63 gwaith yn fwy na'r gydnabyddiaeth ganolrifol ar gyfer 2011-2012.

79 Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar wahân nad yw'n gysylltiedig â pherfformiad, buddiannau mewn da yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

80 Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth yn nodyn 11 i'r cyfrifon.

**Mark Addison CB**
**Cadeirydd**
**NMC**
**25 Medi 2013**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**NMC**
**25 Medi 2013**

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon

81 Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r gyfarwyddeb a roddwyd gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau (SoRP) a bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â'r Safonau Cyfrifyddu cymwys a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu (Atodiad 1).

82 Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifon blynyddol gael eu paratoi a'u harchwilio. Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd (fel Swyddog Cyfrifyddu) yn gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.

83 Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r ffordd y defnyddiwyd adnoddau'r elusen ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn rhaid iddynt wneud y canlynol:

- Dilyn y cyfarwyddiadau cymwys ar gyfrifon a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor.
- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson.
- Dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau.
- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol.
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw, onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu.
- Datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt yn y datganiadau ariannol.

84 Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cyngor ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac afreoleidd-dra arall.

85 Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion cywir fel y'i nodwyd ym *Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu*, a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, ac yn *Managing Public Money*.

**Prif le busnes**

86 Mae'r NMC yn gweithio yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban a'r ynysoedd. Ei brif le busnes yw:

23 Portland Place
London
W1B 1PZ

**Cynghorwyr**

**Archwilwyr ar y Cyd**

haysmacintyre
Cyfrifwyr Siartredig
Fairfax House
15 Fulwood Place
London
WC1V 6AY

**Archwilwyr ar y Cyd**

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

**Bancwyr**

HSBC
117 Great Portland Street
London
W1A 4UY

**Cyfreithwyr**

Field Fisher Waterhouse
35 Vine Street
London
EC3N 2AA

**Archwilwyr Mewnol**

Parkhill
Hammersmith Hospital
South Admin Block
Du Cane Road
Hammersmith
London
W12 0HS

## Datganiad llywodraethu blynyddol

87 Mae'r NMC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362). Nodir ein pwerau a'n cyfrifoldebau yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd) (y gorchymyn) ac yn ein rheolau statudol. Ein hamcan elusennol yw diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Yn ôl y gofyn rydym wedi rhoi sylw dyladwy i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ynglŷn â budd cyhoeddus. Rydym wedi esbonio mewn man arall yn yr adroddiad hwn sut mae ein gwaith yn dangos budd cyhoeddus.

### Y Cyngor

88 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC, ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Mae aelodau'r Cyngor ar y cyd yn gyfrifol am gyfarwyddo materion yr NMC, gan sicrhau ei bod yn solfent, wedi'i redeg yn dda ac yn sicrhau budd cyhoeddus.

89 Yn unol â'r gorchymyn, roedd y Cyngor yn cynnwys 14 o aelodau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013: saith aelod cofrestredig a saith aelod lleyg. Aelodau lleyg yw'r rhai nad ydynt erioed wedi bod yn nyrs na bydwraig gofrestredig. Penodir pob aelod gan y Cyfrin Gyngor.

90 Bu'r canlynol yn gwasanaethu fel aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013:

| | |
|---|---|
| Mark Addison CB | (Cadeirydd o 10 Medi 2012) |
| Yr Athro Judith Ellis MBE | (Aelod o'r Cyngor ers 1 Ionawr 2009, Dirprwy Gadeirydd o 1 Ebrill 2012 hyd at 10 Medi 2012) |
| Alison Aitken | |
| Dr Kuldip Bharj OBE | |
| Sue Hooton OBE | (penodwyd 12 Mehefin 2012) |
| Lorna Jacobs | |
| Grahame Owen | |
| Nicki Patterson | (penodwyd 12 Mehefin 2012) |
| David Pyle | |
| Carole Rees-Williams | |
| Ruth Sawtell | |
| Beatrice Teuten | |
| Yr Athro Jane Tunstill | |
| Joyce Fletcher | (ymddiswyddodd 31 Mai 2012) |

91 Yn unol â Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012, cafodd y Cyngor ei ailgyfansoddi ar 1 Mai 2013 i gynnwys chwe aelod lleyg a chwe aelod cofrestredig a benodir gan y Cyfrin Gyngor. Bu'r aelodau canlynol mewn swydd o 1 Mai hyd at lofnodi'r cyfrifon:

| | |
|---|---|
| Mark Addison CB | Cadeirydd |
| Yr Athro Judith Ellis MBE | |
| Maureen Morgan OBE | |
| Nicki Patterson | |
| Quinton Quayle | |
| Louise Scull | |
| Carol Shillabeer | |
| Elinor Smith | |
| Amerdeep Somal | |
| Stephen Thornton CBE | |
| Lorna Tinsley | |
| Dr Anne Wright CBE | |

**Rôl y Cyngor**

92 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod yr NMC yn cyflawni ei amcanion statudol, ei swyddogaethau cyffredinol a'i ddyletswyddau yn effeithiol ac yn arfer y pwerau cyfreithiol a freinir ynddo o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, Deddf Elusennau 2011 a deddfwriaeth berthnasol arall yn briodol.
- Pennu cyfeiriad strategol cyffredinol yr NMC.
- Cymeradwyo'r cynllun corfforaethol bob blwyddyn a sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i'w gyflawni.
- Monitro perfformiad y Prif Weithredwr a Chofrestrydd drwy'r Cadeirydd, a dwyn deiliad y swydd i gyfrif am arfer pwerau a ddirprwywyd gan y Cyngor yn y cynllun dirprwyo a chyflawni'r cynllun corfforaethol a chyllidebau.
- Hyrwyddo a diogelu pwerau statudol, gwerthoedd, uniondeb, delwedd ac enw da'r NMC.
- Sicrhau llywodraethu o safon uchel sy'n ennyn hyder pob rhanddeiliad.

**Pwyllgorau**

93 Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Pwyllgor Bydwreigiaeth. Gall y Cyngor sefydlu pwyllgorau eraill at ddibenion penodol. Roedd y Bwrdd Penodiadau, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013. Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd y

Cyngor Bwyllgor Addysg, Pwyllgor Cyllid a TG, a Phwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, gan ffurfioli'r gwaith a wnaed gan weithgorau gynt. Ceir crynodeb o gyfrifoldebau a gweithgareddau allweddol pob pwyllgor isod.

**Bwrdd Penodiadau**

94 Mae'r Bwrdd Penodiadau yn gyfrifol am sicrhau bod y prosesau o benodi, hyfforddi a rheoli perfformiad aelodau partner, aelodau paneli addasrwydd i ymarfer ac adolygwyr Awdurdodau Gorchwylio Lleol yn annibynnol, yn dryloyw ac yn dilyn arfer da. Er mwyn cynnal annibyniaeth y Bwrdd Penodiadau, mae ei bum aelod, gan gynnwys y Cadeirydd, yn annibynnol ar y Cyngor. Cadeirydd y Bwrdd Penodiadau yn ystod y flwyddyn oedd yr Athro Nigel Ratcliffe.

**Pwyllgor Archwilio**

95 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am sicrhau y caiff busnes yr NMC ei gynnal gyda'r uniondeb, y gonestrwydd a'r effeithlonrwydd mwyaf, a bod systemau priodol ar waith i reolir risg. Julie Drown, aelod partner, oedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer ei gyfarfod cyntaf o'r flwyddyn. Wedyn, cafodd y Pwyllgor Archwilio ei gadeirio yn ystod y flwyddyn gan Ruth Sawtell, aelod Cyngor.

96 Ar ôl ailgyfansoddi'r Cyngor, penodwyd Louise Scull yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Carol Shillabeer a Stephen Thornton yn aelodau. Ynghyd ag aelod partner, Julia Drown, adolygwyd y cyfrifon a'r adroddiad blynyddol cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor.

**Pwyllgor Addysg**

97 Rôl y Pwyllgor Addysg yw cynghori'r Cyngor ar gyflawni ei gyfrifoldeb am sicrhau y caiff y safonau a'r gofynion a bennwyd ar gyfer sefydliadau addysgol cymeradwy yn y Deyrnas Unedig, o ran addysg a hyfforddiant nyrsys a bydwragedd, eu cyrraedd. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio am y tro cyntaf ar 24 Ionawr 2013. Cadeirydd y Pwyllgor Addysg yn ystod y flwyddyn oedd yr Athro Judith Ellis MBE, aelod Cyngor.

**Pwyllgor Cyllid a TG**

98 Rôl y Pwyllgor Cyllid a TG yw cynghori'r Cyngor ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau ariannol a thechnoleg gwybodaeth priodol, er mwyn galluogi'r NMC i gyflawni ei swyddogaethau statudol, cynnal sefyllfa ariannol gadarn a rheoli ei systemau technoleg gwybodaeth mewn ffordd gadarn. Cyfarfu'r Pwyllgor Cyllid a TG am y tro cyntaf ar 24 Ionawr 2013. Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a TG yn ystod y flwyddyn oedd Grahame Owen, aelod Cyngor.

**Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer**

99 Rôl y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yw cynghori'r Cyngor ar berfformiad gweithgareddau addasrwydd i ymarfer y Pwyllgor a' ffordd y mae'n eu rheoli. Cyfarfu'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer am y tro cyntaf ar 17 Ionawr 2013. Cadeirydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn ystod y flwyddyn oedd Beatrice Teuten, aelod Cyngor.

## Y Pwyllgor Bydwreigiaeth

100 Cylch gwaith statudol y Pwyllgor Bydwreigiaeth yw cynghori'r Cyngor ar bob mater sy'n ymwneud â bydwreigiaeth. Cadeirydd y Pwyllgor Bydwreigiaeth yn ystod y flwyddyn oedd Dr Kuldip Bharj OBE, aelod Cyngor.

## Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

101 Rôl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw cynghori ar benodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a chyfarwyddwyr a'u cydnabyddiaeth, cytuno ar drefniadau cydnabyddiaeth ar gyfer aelodau'r Cyngor a goruchwylio taliadau i staff sydd y tu allan i delerau cytundebol arferol. Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn oedd John Halladay, aelod partner.

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau

102 Cofnodir isod bresenoldeb aelodau ac aelodau partner yng nghyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau yn ystod y flwyddyn.

### Cyngor

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Mark Addison CB | 6 | 6 |
| Yr Athro Judith Ellis MBE | 10 | 10 |
| Alison Aitken | 10 | 7 |
| Dr Kuldip Bharj OBE | 10 | 6 |
| Sue Hooton OBE ** | 8 | 6 |
| Lorna Jacobs | 10 | 10 |
| Grahame Owen | 10 | 10 |
| Nicki Patterson ** | 8 | 7 |
| David Pyle | 10 | 9 |
| Carole Rees-Williams | 10 | 5 |
| Ruth Sawtell | 10 | 10 |
| Beatrice Teuten | 10 | 9 |
| Yr Athro Jane Tunstill | 10 | 9 |
| Joyce Fletcher | 2 | 1 |

** Daeth penodiadau Sue Hooton a Nicki Patterson yn weithredol o 12 Mehefin 2012. Ni fu'r naill na'r llall yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor ar 21 Mehefin oherwydd diffyg rhybudd.

**Pwyllgor Archwilio**

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Ruth Sawtell | 4 | 4 |
| Grahame Owen (tan 12 Rhagfyr 2012) | 3 | 2 |
| Beatrice Teuten | 4 | 4 |
| Sue Hooton OBE (o 12 Rhagfyr 2012) | 1 | 0 |
| Yr Athro Jane Tunstill (o 12 Rhagfyr 2012) | 1 | 1 |
| Julia Drown (aelod partner) | 4 | 4 |
| Kim Lavely (aelod partner) (ymddiswyddodd 12 Rhagfyr 2012) | 3 | 3 |
| Louise Scull (aelod partner) | 4 | 4 |

## Y Pwyllgor Bydwreigiaeth

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Dr Kuldip Bharj OBE | 3 | 3 |
| David Pyle | 3 | 1 |
| Gillian Boden (aelod partner) | 3 | 3 |
| Marie McDonald (aelod partner) | 3 | 3 |
| Dorothy Patterson (aelod partner) | 3 | 3 |
| Kirsty Darwent (aelod partner) | 3 | 2 |
| Ann Holmes (aelod partner) | 3 | 1 |
| Frances McCartney (aelod partner) | 3 | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Rose McCarthy (aelod partner) (ymddiswyddodd 11 Medi 2012) | 1 | 0 |

**Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth**

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| John Halladay | 5 | 5 |
| Dr Kuldip Bharj OBE | 5 | 4 |
| David Pyle | 5 | 5 |
| Yr Athro Jane Tunstill | 5 | 5 |

**Pwyllgor Cyllid a TG**

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Grahame Owen | 2 | 2 |
| Lorna Jacobs | 2 | 1 |
| Alison Aitken | 2 | 1 |
| Louise Scull (aelod partner) | 2 | 2 |

**Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer**

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Beatrice Teuten | 3 | 3 |
| Lorna Jacobs | 3 | 3 |
| Carole Rees-Williams | 3 | 1 |

**Pwyllgor Addysg**

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Judith Ellis | 1 | 1 |
| Sue Hooton OBE | 1 | 0 |
| David Pyle | 1 | 1 |

**Rôl y Weithrediaeth**

103 Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw prif swyddog yr NMC sydd â chyfrifoldeb gweithredol am reoli'r NMC yn weithredol. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer materion ariannol, ymddygiad a disgyblaeth. Cefnogir y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan grŵp y Cyfarwyddwyr.

104 Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Cadeirydd a'r Cyngor yn cael gwybodaeth amserol, gywir a chlir er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau.

105 Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am arwain grŵp y Cyfarwyddwyr a staff o ran:

- Cyflawni amcanion statudol, swyddogaethau a dyletswyddau cyffredinol yr NMC ac arfer ei bwerau cyfreithiol.
- Datblygu cynlluniau, rhaglenni a pholisïau i'w cymeradwyo gan y Cyngor.
- Gwireddu strategaethau a chynlluniau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol.
- Darparu gwasanaethau'r NMC yn unol â'r targedau a'r dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt gyda'r Cyngor.

106 Fel Swyddog Cyfrifyddu'r NMC, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol yn bersonol am faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol, cadw cyfrif priodol o faterion ariannol a defnydd effeithiol o adnoddau. Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn atebol i'r Pwyllgor Archwilio am y ffordd y mae'r NMC yn defnyddio cronfeydd cofrestrwyr ac mae'n atebol ac yn gyfrifol yn bersonol am y canlynol:

- Priodoldeb a rheoleidd-dra'r NMC.
- Gweinyddu mewn modd pwyllog a darbodus.
- Osgoi gwastraff ac afradlondeb.
- Defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau.
- Trefniadaeth, staffio a rheoli cyffredinol

**Effeithiolrwydd llywodraethu**

107 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i lywodraethu o safon uchel. Mae ein harfer yn cydymffurfio â *Chod Ymarfer Da Llywodraethu Corfforaethol* Trysorlys EM i'r graddau y mae'n gymwys i'r sefydliad. Rydym yn cynnal ein busnes yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

108 Rydym wedi parhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion adolygiad strategol y PSA ynglŷn â llywodraethu ac arweinyddiaeth. Penodwyd Mark Addison CB yn Gadeirydd y Cyngor ar 10 Medi 2012. Penodwyd Jackie Smith yn Brif Weithredwr a Chofrestrydd parhaol am gyfnod o flwyddyn yn weithredol o 8 Hydref 2012, ac fe'i penodwyd i'r swydd ar sail barhaol yn weithredol o 19 Mehefin 2013. At hynny, penodwyd dau aelod newydd o'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi adolygu'r ffordd rydym yn ymdrin â llywodraethu yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Adolygu fframwaith llywodraethu'r NMC er mwyn cael eglurhad ynglŷn â phriod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r weithrediaeth, a'r berthynas rhyngddynt.
- Gwella ansawdd y wybodaeth a roddir i'r Cyngor, yn enwedig data ariannol a dangosyddion perfformiad, er mwyn ei helpu i wneud penderfyniadau a gwella atebolrwydd y weithrediaeth.
- Penodi cynghorydd sy'n gymwysedig yn ariannol i'r Cyngor, a fu'n bresennol yng nghyfarfodydd y Cyngor.
- Sefydlu'r Pwyllgor Addysg, y Pwyllgor Cyllid a TG a'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer er mwyn sicrhau goruchwyliaeth ychwanegol o'r ffordd y caiff swyddogaethau allweddol eu llywodraethu.

109 Mae sicrhau proses bontio effeithiol o ran arweinyddiaeth a llywodraethu'r NMC yn flaenoriaeth o hyd. Yn sgil cyhoeddi adolygiad strategol y PSA, comisiynwyd adolygiad annibynnol gennym er mwyn helpu i bennu model llywodraethu sy'n addas at y diben ac sydd mewn sefyllfa dda i helpu'r Cyngor ar ei ffurf newydd i gyflawni ei amcanion. Mae'r adolygiad yn cydnabod bod cynnydd gweithredol wedi cael ei wneud ac mae'n dod i'r casgliad y bydd angen newidiadau i'n trefniadau llywodraethu er mwyn galluogi'r NMC i gydbwyso ffocws parhaus ar wella perfformiad â mwy o ffocws strategol. Mae'r Cyngor wedi ystyried ac wedi derbyn yr argymhellion a bydd yn eu rhoi ar waith yn ystod 2013-2014.

**Rheolaeth fewnol a rheoli risg**

110 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sefydlu a chynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n galluogi'r NMC i gyflawni ei ddiben rheoleiddio craidd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg yn hytrach na'i dileu, ac i roi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd ond nid sicrwydd llwyr. Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am weithredu'r system o reolaeth fewnol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â gweithredu'r system o reolaeth fewnol.

111 Yn ystod y flwyddyn, darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol yr NMC gan Parkhill, sy'n gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth a Safonau Rhyngwladol Ymarfer Archwilio Mewnol Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol. Cyflwynodd yr archwilwyr mewnol adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a oedd yn cynnwys barn annibynnol ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion i'w gwella. Cafodd gwaith y Pwyllgor Archwilio ei lywio ymhellach gan adroddiadau gan reolwyr a chan sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli.

112 Ar ôl proses gystadleuol, rydym wedi penodi Moore Stephens i ddarparu ein gwasanaeth archwilio mewnol o 1 Ebrill 2013. Ein blaenoriaethau yw rheoli proses

bontio effeithiol yn y gwasanaethau archwilio mewnol a gweithio gyda'r cwmni newydd i barhau i atgyfnerthu ein fframwaith rheolaeth fewnol a sicrwydd.

113 Y Cyngor sy'n gyfrifol yn gyffredinol am reoli risg, gan sicrhau bod gan yr NMC bolisi rheoli risg priodol ar waith a bod risgiau mawr yn cael eu rheoli a'u cofnodi'n briodol. Fel rhan o'r broses o reoli risg, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r cynllun corfforaethol a'r gyllideb, yn adolygu cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, ac yn rhoi sylw dyladwy i gyfleoedd a risgiau wrth wneud penderfyniadau.

114 Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi rheoli risg a, thrwy'r Cyfarwyddwyr, am nodi a gwerthuso risgiau, gan roi mesurau priodol ar waith i liniaru risgiau a monitro cynnydd a chyflwyno adroddiadau arno. Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am roi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â gweithredu'r polisi rheoli risg a rheoli risg.

115 Mae'r Cyngor wedi trafod y prif risgiau y mae'r NMC yn eu hwynebu ym mhob un o'i gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Mae grŵp y Cyfarwyddwyr wedi ystyried y gofrestr risgiau lawn bob mis. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi trafod y broses o reoli risg, ac wedi ystyried effeithiolrwydd y broses rheoli risg, ym mhob un o'i gyfarfodydd.

116 Yn ystod y flwyddyn, mae'r NMC wedi cymryd camau i sefydlogi ei sefyllfa ariannol a buddsoddi'n sylweddol yn ei weithrediadau addasrwydd i ymarfer er mwyn diogelu'r cyhoedd yn well, ac erys y rhain yn faterion y mae'r Cyngor yn rhoi sylw manwl iddynt. Rydym wedi gwneud cynnydd o ran gwella gweithrediadau addasrwydd i ymarfer ac rydym yn parhau i fonitro perfformiad yn fanwl. Rydym wedi rhoi Strategaeth TGCh ar waith er mwyn sefydlogi ein systemau presennol yn y byrdymor a sicrhau bod gennym systemau a seilwaith priodol i gyflawni ein rhwymedigaethau i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'r NMC yn parhau i reoli risgiau sy'n ymwneud â'i weithgareddau rheoleiddio yn fanwl, gan gynnwys:

- Gwella'r broses gofrestru dramor fel y bydd systemau yn sicrhau bod pob ymgeisydd yn bodloni amodau cofrestru perthnasol. Yn ystod y flwyddyn, o ganlyniad i'n hadolygiad o'r broses gofrestru dramor, nodwyd pryderon ynglŷn â'r gofynion hyfforddi i ymgeiswyr o wledydd penodol a'n gweithdrefnau ar gyfer dilysu dogfennau adnabod. Ataliwyd cofrestriadau dramor dros dro rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2013 a chyflwynwyd gweithdrefnau diwygiedig. Mae'r PSA wedi canmol y ffordd yr ydym wedi mynd i'r afael â'r mater difrifol hwn.
- Gweithredu newidiadau technegol a sefydliadol er mwyn gwella cywirdeb ac uniondeb y gofrestr.
- Sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol ac yn gymesur i argymhellion *Adroddiad yr ymchwiliad annibynnol i'r gofal a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford* (Adroddiad Francis), a bod ein proffil cyhoeddus yn gyson â'n diben rheoleiddio craidd.
- Cymryd camau i gyflawni ein rhwymedigaethau ynglŷn â'r gofyniad i gofrestrwyr ddal yswiriant indemniad proffesiynol.

117 Roedd y materion allweddol ynglŷn â rheolaeth fewnol a rheoli risg a drafodwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Adolygiad annibynnol o’r gwaith a wnaed i gysoni anghysondebau rhwng y system gofrestru a’r system rheoli achosion.
- Gorchwylio’r broses o ddatblygu ffordd integredig o ymdrin â digwyddiadau difrifol, digwyddiadau ynglŷn â diogelwch, a chwynion.
- Adolygu’r polisi ynglŷn â chwythu’r chwiban; y rheoliadau ariannol; y polisi ynglŷn â gwrthdwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth; a’r ffordd y mae’r NMC yn datblygu polisïau a gweithdrefnau.
- Cymeradwyo diwygiadau i’n fframwaith rheoli risg er mwyn atgyfnerthu ein dull gweithredu a sicrhau ei fod wedi’i ymgorffori ym mhob rhan o’r NMC.
- Canlyniadau gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn, cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilwyr mewnol, a’r broses o gaffael darpariaeth archwilio mewnol newydd yn weithredol o fis Ebrill 2013.

**Diffygion o ran diogelwch**

118 Mae polisïau’r NMC yn ei gwneud yn ofynnol i roi gwybod am bob digwyddiad sy’n ymwneud â diogelwch gwybodaeth, gan gynnwys colli unrhyw ddata personol. Mae ein diffiniad o ddigwyddiad sy’n ymwneud â diogelwch gwybodaeth yn cynnwys digwyddiadau lle bu posibilrwydd o dor-rheol ond na chafodd data ei ddiogelu heb awdurdod mewn gwirionedd. Caiff digwyddiadau eu monitro gan y grŵp Llywodraethu a Diogelwch Gwybodaeth sy’n atebol i grŵp y Cyfarwyddwyr am sicrhau y caiff gwersi eu dysgu er mwyn atal digwyddiadau rhag codi eto.

119 Yn ystod y flwyddyn, bu 73 o ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth, y cafodd dau ohonynt eu dosbarthu’n rhai cymedrol, 61 yn rhai mân, a 10 yn rhai dibwys. Ni chafodd yr un digwyddiad ei ddosbarthu’n un tyngedfennol nac yn un mawr. Mae’r Pwyllgor Archwilio wedi cael adroddiadau ar ddigwyddiadau sy’n ymwneud â diogelwch gwybodaeth ym mhob un o’i gyfarfodydd a pharheir i reoli’r risg yn fanwl.

120 Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012, rhoddwyd gwybod yn wirfoddol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am ddigwyddiad a oedd yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth ar 7 Hydref 2011 a rhoddwyd adroddiad arno yn yr adroddiad blynyddol y llynedd. Arweiniodd hyn at gyhoeddi hysbysiad cosb ariannol o £150,000 (a ostyngwyd i £120,000 am ei thalu’n gynnar) ar 14 Mawrth 2013. Yn y cyfamser rydym wedi atgyfnerthu ein harferion diogelwch gwybodaeth drwy ddiwygio ein polisi, cyflwyno gweithdrefn safonol newydd a diwygio ein hyfforddiant i gyflogeion.

**Gwybodaeth archwilio berthnasol**

121 Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr NMC yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi’u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr NMC yn ymwybodol o’r wybodaeth honno.

**Mark Addison CB**
**Cadeirydd**
**NMC**
**25 Medi 2013**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**NMC**
**25 Medi 2013**

## Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Dim ond i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno, adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu'r Cyngor o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu ohonynt mewn Adroddiad Archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r elusen a'r Cyngor, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

### Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor, mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fe'n penodwyd yn archwilwyr o dan adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rydym yn cyflwyno adroddiadau i chi yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 44(1)(c) ac adran 154 o'r Deddfau yn y drefn honno. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a llunio barn arnynt yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

### Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Fel rhan o hyn asesir y canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r elusen ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, rydym yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad y Cyngor er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg ystyriwn y goblygiadau i'n hadroddiad.

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2013 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r ffordd y cymhwyswyd adnoddau ar gyfer y flwyddyn

a ddaeth i ben bryd hynny;

- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;

- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd).

**Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes dim i'w nodi gennym mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Deddf Elusennau 2001 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi, os, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad y Cyngor yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol; neu

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir a digonol; neu

- nid yw'r datganiadau ariannol yn gydnaws â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

*haysmacintyre*
*Cyfrifwyr Siartredig*
*Archwilwyr Statudol*

Fairfax House
15 Fulwood Place
London
WC1V 6AY

**Dyddiad: 26 Medi 2013**

Mae haysmacintyre yn gymwys i weithredu fel archwilydd yn unol â thelerau adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DDAU DŶ’R SENEDD

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae’r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a’r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio’r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi’i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

### Priod gyfrifoldebau’r Cyngor a’r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a’r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y ‘Datganiad o Gyfrifoldebau’r Cyngor a’r Prif Weithredwr a Chofrestrydd’, y Cyngor a’r Prif Weithredwr a Chofrestrydd fel Swyddog Cyfrifyddu sy’n gyfrifol am baratoi’r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio’r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae’r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a’m staff gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

### Cwmpas yr Archwiliad o’r Datganiadau Ariannol

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a’r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy’n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Fel rhan o hyn asesir y canlynol: a yw’r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac wedi’u cymhwyso’n gyson a’u datgelu’n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â’r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg ystyriaf y goblygiadau i’m tystysgrif.

Mae’n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr adnoddau i mewn a’r adnoddau a ddefnyddiwyd a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi’u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu.

### Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol mae’r adnoddau i mewn a’r adnoddau a ddefnyddiwyd a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi’u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu.

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae’r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2013 ynghyd â’r adnoddau a ddaeth i mewn a’r ffordd y cymhwyswyd adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- mae’r datganiadau ariannol wedi’u paratoi’n briodol yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor o dan y Gorchymyn hwnnw.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae’r rhan o’r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i’w harchwilio wedi’i pharatoi yn unol â

chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001;

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adolygiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes angen i mi gyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r materion canlynol y'ch hysbysaf ohonynt os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni dderbyniwyd datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth i'w harchwilio yn gydnaws â'r cofnodion neu'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Amyas C E Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

National Audit Office

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

London

SW1W 9SP

Dyddiad **Medi 2013**

## Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | Nodyn | **Cronfeydd digyfyngiad 2013** £'000 | **Cronfeydd cyfyngedig 2013** £'000 | **Cyfanswm cronfeydd 2013** £'000 | Cyfanswm cronfeydd 2012 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau i mewn** | | | | | |
| Adnoddau a ddaeth i mewn o weithgareddau elusennol: | | | | | |
| • Incwm ffioedd | 3 | **52,080** | **–** | **52,080** | 51,581 |
| Adnoddau a ddaeth i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd: | | | | | |
| • Incwm buddsoddiadau | 2 | **1,244** | **31** | **1,275** | 1,200 |
| • Grant (Adran Iechyd) | 27 | – | **20,000** | **20,000** | – |
| **Cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn** | | **53,324** | **20,031** | **73,355** | 52,781 |
| **Yr adnoddau a wariwyd** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 4 | **56,470** | **1,294** | **57,764** | 54,907 |
| Costau llywodraethu | 5 | **3,590** | **–** | **3,590** | 3,552 |
| Adnoddau eraill a wariwyd: | | | | | |
| • Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | 6 | **1,912** | **–** | **1,912** | 2,732 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | | **61,972** | **1,294** | **63,266** | 61,191 |
| **Adnoddau net a ddaeth i mewn/(a aeth allan) o weithrediadau** | | **(8,648)** | **18,737** | **10,089** | (8,410) |
| **Enillion cydnabyddedig eraill** | | | | | |
| Ennill nas gwireddwyd wrth ailbrisio asedau sefydlog | | **2,766** | **–** | **2,766** | **–** |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | **(5,882)** | **18,737** | **12,855** | (8,410) |
| Cronfeydd wrth gefn a ddygwyd ymlaen | | **41,549** | **120** | **41,669** | 50,079 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | **35,667** | **18,857** | **54,524** | 41,669 |

Deilliodd holl weithgareddau'r Cyngor yn y ddwy flwyddyn ariannol uchod o weithrediadau parhaus. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig wedi'u cynnwys yn y datganiad uchod. Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 64 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Y Fantolen ar 31 Mawrth 2013

| | Nodyn | 2013<br>£'000 | 2012<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau diriaethol | 13 | **20,391** | 18,416 |
| **Cyfanswm asedau sefydlog** | | **20,391** | 18,416 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 15 | **1,747** | 1,557 |
| Adneuon byrdymor | 25 | **65,354** | 60,000 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 25 | **10,058** | 5,432 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **77,159** | 66,989 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Credydwyr (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn) | 16 | **(42,221)** | (43,640) |
| Darpariaethau (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn) | 17 | **(67)** | – |
| **Asedau cyfredol net** | | **34,659** | 23,349 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **55,262** | 41,765 |
| **Credydwyr** (symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn) | 18 | **(102)** | (96) |
| **Darpariaethau** (symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn) | 19 | **(636)** | – |
| **Asedau net** | | **54,524** | 41,669 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | 27 | **18,857** | 120 |
| **Cronfeydd digyfyngiad** | | **35,667** | 41,549 |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | | **54,524** | 41,669 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 64 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Mark Addison CB**
**Cadeirydd**
**NMC**
**25 Medi 2013**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**NMC**
**25 Medi 2013**

## Datganiad llif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | | | 2013 | | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Mewnlif (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu** | 23 | | **10,379** | | (2,141) |
| **Enillion ar fuddsoddi** | | | | | |
| Llog a gafwyd | 2 | **1,275** | | 1,200 | |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol** | | | | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | 13 | **(1,674)** | | (3,874) | |
| | | | **(399)** | | (2,674) |
| **Cynnydd/(lleihad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn** | | | **9,980** | | (4,815) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 64 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 1 Polisïau cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Penderfyniad ynglŷn â'r Cyfrifon (gweler Atodiad 1) gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r *Datganiad o Ymarfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau* (SoRP Elusennau 2005) a bod y cyfrifon wedi rhoi sylw i ofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn egluro gofynion SoRP Elusennau neu'n adeiladu arnynt.

### a) Confensiwn cyfrifyddu

Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd i gynnwys ailbrisio rhai asedau sefydlog.

### b) Asedau sefydlog

Dibrisir asedau sefydlog diriaethol er mwyn gostwng eu gwerth nominal i £1 dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig mewn rhandaliadau cyfartal fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarpar | – | tair i bum mlynedd |
| Dodrefn | – | 10 mlynedd |
| Adnewyddu – 23 Portland Place | – | 10 mlynedd |
| Eiddo ar brydles – 23 Portland Place | – | 50 mlynedd |
| Eiddo lesddaliadol – 61 Aldwych | –<br>– | 10 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Eiddo lesddaliadol – Clarendon House | –<br>– | 10 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Eiddo lesddaliadol– 1 Kemble Street | | 8.5 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Eiddo lesddaliadol – 20 Old Bailey | | 23 mis (dros gyfnod y brydles) |
| Prosiectau TG | – | tair i bum mlynedd |

Cyfalafwyd asedau sefydlog diriaethol sy'n werth dros £1,000.

Mae'r NMC yn ailbrisio ei eiddo lesddaliadol bob pum mlynedd gan gynnal adolygiad interim o'r lleihad mewn gwerth yn y drydedd flwyddyn yn unol ag FRS15, ac ailbrisiad interim yn y cyfamser lle mae'n debygol bod newid perthnasol mewn gwerth.

### c) Adnoddau sy'n codi – Incwm

#### Incwm buddsoddiadau

Rhoddir cyfrif am incwm buddsoddiadau pan fo'n dderbyniadwy ac mae'n cynnwys unrhyw dreth gysylltiedig y gellir ei hadennill. Datgelir incwm buddsoddi mewn perthynas â chronfeydd cyfyngedig fel incwm buddsoddi cyfyngedig.

**Incwm o weithgareddau elusennol**

Credydwyd ffioedd cofrestru, dilysu a disodli cerdyn rhif adnabod personol i'r incwm ar y diwrnod derbyn. Dyrannwyd ffioedd cyfnodol i'r flwyddyn ariannol briodol yn seiliedig ar y cysyniad o groniadau. Mae a wnelo ffioedd cyfnodol ag adnewyddu neu gynnal statws cofrestru yn flynyddol.

**Ch) Dyrannu costau**

Mae costau gweithredu'r NMC yn cynnwys costau staff, costau eiddo a chostau cysylltiedig eraill. Dyrennir costau o'r fath rhwng gwariant elusennol uniongyrchol, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd a llywodraethu. Dyrennir costau staff yn ôl costau staff sy'n gweithio'n uniongyrchol yn yr adrannau perthnasol. Dyrennir costau eiddo yn unol â defnydd a niferoedd staff ym mhob adran a dosrennir costau TGCh a chostau eraill i adrannau ar sail briodol (er enghraifft, niferoedd staff).

**Gweithgareddau elusennol**

Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys pob gwariant sy'n gysylltiedig ag amcanion yr elusen sy'n cynnwys addasrwydd i ymarfer, cadw'r gofrestr, hyrwyddo addysg a safonau a datblygu polisi.

**Costau llywodraethu**

Mae costau llywodraethu yn ymwneud â gwariant yr eir iddo wrth reoli asedau'r NMC, gweinyddu'r sefydliad a chydymffurfio â gofynion statudol.

**Gwariant arall**

Mae gwariant arall yn cynnwys:

**Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd**

Mae costau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ymwneud â chostau'r adran Gyfathrebu, y mae'r prif elfennau ohonynt yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwaith gyda senedd y DU a senedd Ewrop, cynadleddau a digwyddiadau, cysylltiadau â'r cyfryngau a gwariant ar gyhoeddiadau'r NMC.

**d) Costau datblygu**

Caiff costau mewnol yr aed iddynt wrth ddatblygu meddalwedd eu dileu yn y flwyddyn yr eir iddynt.

**dd) Cyfrifyddu cronfeydd**

Mae'r Cyngor yn cadw amryw fathau o gronfeydd fel a ganlyn:

i) Cronfeydd cyfyngedig

Mae'r rhain yn gronfeydd a ddefnyddir yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr. Amlinellir nod pob cronfa gyfyngedig a'r defnydd a wneir ohoni yn nodyn 27 i'r datganiadau ariannol.

ii) Cronfeydd digyfyngiad

Mae'r cronfeydd hyn ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y Cyngor i hyrwyddo amcanion cyffredinol y sefydliad ac nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion eraill.

**e) Asedau ar brydles**

Codir rhenti sy'n gymwys i brydlesau gweithredol, lle mae holl fuddiannau a risgiau perchenogaeth yn perthyn i'r prydleswr i raddau helaeth, i'r datganiad o weithgareddau ariannol mewn symiau cyfartal dros gyfnodau'r prydlesau.

**f) Costau pensiwn**

Darperir buddiannau ymddeol drwy gynllun buddiannau diffiniedig a ariennir drwy gyfraniadau gan yr NMC a chyflogeion. Gwneir taliadau i ymddiriedolaeth bensiwn sydd ar wahân i'r NMC yn ariannol. Gwneir y taliadau hyn yn unol â chyfrifiadau cyfnodol gan actiwarïaid â chymwysterau proffesiynol. Cyfrifir am gostau pensiwn ar sail codi cost ddisgwyliedig darparu pensiynau dros y cyfnod y mae'r NMC yn cael budd gwasanaeth cyflogeion. Lledaenir effaith amrywiadau i gostau rheolaidd dros gyfnod o amser a bennir gan yr ymddiriedolaeth bensiwn.

## 2 Incwm buddsoddiadau

| | **Digyfyn-giad £'000** | **Cyfynge-dig £'000** | **2013 £'000** | 2012 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Llog derbyniadwy | | | | |
| • o adneuon mewn banciau | **1,244** | **31** | **1,275** | 1,200 |
| | **1,244** | **31** | **1,275** | 1,200 |

## 3 Incwm ffioedd

| | **2013 £'000** | 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd cyfnodol | **51,299** | 51,002 |
| Cofrestru | **638** | 389 |
| Dilysu | **140** | 184 |
| Disodli cardiau rhif adnabod personol | **3** | 6 |
| | **52,080** | 51,581 |

## 4 Gweithgareddau elusennol

| | Digyfyn-giad £'000 | Cyfynge-dig £'000 | 2013 £'000 | 2012 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **2,025** | **120** | **2,145** | 3,233 |
| Addysg | **1,395** | | **1,395** | 2,378 |
| Cynnal y gofrestr | **5,560** | | **5,560** | 8,147 |
| Addasrwydd i ymarfer | **47,490** | **1,174** | **48,664** | 41,149 |
| | **56,470** | **1,294** | **57,764** | 54,907 |

Mae'r costau hyn yn cynnwys costau uniongyrchol,[13] costau staff a gorbenion cysylltiedig

## 5 Costau llywodraethu

| | 2013 £'000 | 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Lwfansau, costau teithio a chynhaliaeth aelodau | **278** | 291 |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr – ffioedd archwilio – haysmacintyre | **28** | 24 |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr – ffioedd archwilio – Swyddfa Archwilio Genedlaethol | **5** | 5 |
| Dyrannu costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau)[14] | **3,279** | 3,232 |
| | **3,590** | 3,552 |

## 6 Gwariant arall - Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd

| | 2013 £'000 | 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd | **107** | 112 |
| Cyfathrebu | **49** | 66 |
| Argraffu cyhoeddiadau'r NMC | **312** | 475 |
| Dyrannu costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau)[15] | **1,444** | 2,079 |
| | **1,912** | 2,732 |

[13] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 8
[14] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 1d)
[15] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 1d)

## 7 Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd

| | **Costau staff £'000** | **Dibrisia-nt £'000** | **Costau-eraill £'000** | **Cyfansw-m 2013 £'000** | Cyfansw-m 2012 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau elusennol: | | | | | |
| • Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **1,671** | **146** | **328** | **2,145** | 3,233 |
| • Addysg | **528** | **22** | **845** | **1,395** | 2,378 |
| • Cynnal y gofrestr | **2,463** | **327** | **2,770** | **5,560** | 8,147 |
| • Addasrwydd i ymarfer | **14,068** | **1,770** | **32,826** | **48,664** | 41,149 |
| Costau llywodraethu | **2,481** | **113** | **996** | **3,590** | 3,552 |
| Gwariant arall: | | | | | |
| • Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | **1,052** | **87** | **773** | **1,912** | 2,732 |
| | **22,263** | **2,465** | **38,538** | **63,266** | 61,191 |

## 8 Dadansoddi costau uniongyrchol

| | **Costau-uniongy-rchol £'000** | **Costau-cymorth £'000** | **Cyfansw-m 2013 £'000** | Cyfansw-m 2012 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau elusennol:** | | | | |
| • Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **1,645** | **500** | **2,145** | 3,233 |
| • Addysg | **1,318** | **77** | **1,395** | 2,378 |
| • Cynnal y gofrestr | **4,434** | **1,126** | **5,560** | 8,147 |
| • Addasrwydd i ymarfer | **43,738** | **4,926** | **48,664** | 41,149 |
| **Is-gyfanswm gweithgareddau elusennol** | **51,135** | **6,629** | **57,764** | 54,907 |
| • Llywodraethu | **3,436** | **154** | **3,590** | 3,552 |
| • Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | **1,614** | **298** | **1,912** | 2,732 |
| **Cyfanswm** | **56,185** | **7,081** | **63,266** | 61,191 |

## 9 Dadansoddi costau cymorth

| Cost cymorth | Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | Addysg | Cynnal y gofrestr | Addasrwydd i ymarfer | Llywodraeth-u | Cyfathrebu-ac ymgysylltu â'r cyhoedd | Cyfanswm 2013 | Cyfanswm 2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfleuste-rau | 47 | 7 | 107 | 466 | 15 | 28 | 670 | 778 |
| Cyllid | 143 | 22 | 321 | 1,405 | 44 | 85 | 2,020 | 1,778 |
| Adnodda u Dynol | 162 | 25 | 364 | 1,595 | 49 | 97 | 2,292 | 1,609 |
| TGCh | 148 | 23 | 334 | 1,460 | 46 | 88 | 2,099 | 2,458 |
| | 500 | 77 | 1,126 | 4,926 | 154 | 298 | 7,081 | 6,623 |

Dyrannwyd y costau cymorth ar sail nifer y staff ym mhob maes

## 10 Cyfanswm y gwariant yn ôl math o gost

| | **2013 £'000** | 2012 £'000 | **Manylion (gweler y dudalen nesaf)** |
|---|---|---|---|
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | **22,263** | 20,736 | 10.1 |
| Costau staff eraill | **1,011** | 1,043 | |
| Safleoedd | **3,610** | 3,068 | 10.2 |
| Yswiriant | **118** | 97 | |
| Eitemau amrywiol, dodrefn, cyfarpar a gwaith cynnal a chadw | **152** | 230 | |
| Llogi cyfarpar | **7** | 5 | |
| Addasrwydd i ymarfer | **24,752** | 23,705 | 10.3 |
| Apeliadau Cofrestru | **90** | 0 | 10.4 |
| Dibrisiant | **2,465** | 2,635 | 10.5 |
| Dadfeiliadau | **212** | 0 | 10.6 |
| Arlwyo ar gyfer gwrandawiadau a chyfarfodydd addasrwydd i ymarfer | **446** | 170 | 10.7 |
| Ffreutur y staff | **215** | 232 | |
| Cost sicrhau ansawdd addysg | **786** | 1,068 | 10.8 |
| Costau adolygu Awdurdodau Goruchwylio Lleol | **20** | 56 | 10.9 |
| Ffioedd proffesiynol | **1,724** | 2,495 | 10.10 |
| Cydnabyddiaeth yr Archwilwyr – ffioedd archwilio | **28** | 24 | |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr – ffioedd archwilio (Swyddfa Archwilio Genedlaethol) | **5** | 5 | |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr – costau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio | **17** | 0 | |
| Datblygu TG a chymorth TG | **1,999** | 1,798 | 10.11 |
| Tâl postio | **859** | 690 | |
| Cost argraffu a deunydd ysgrifennu | **607** | 842 | |
| Hysbysebu a recriwtio | **744** | 788 | 10.12 |
| Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd | **107** | 112 | |
| Argraffu cyhoeddiadau'r NMC | **312** | 475 | 10.13 |
| Lwfansau, costau teithio a chynhaliaeth aelodau | **278** | 291 | |
| Costau pwyllgorau | **47** | 135 | 10.14 |
| Costau cymorth eraill | **392** | 491 | 10.15 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | **63,266** | 61,191 | |

## Manylion ychwanegol am y tabl yn nodyn 10

### 10.1 Cyflogau a chostau cysylltiedig

Cynyddodd buddsoddiad mewn adnoddau staffio yn 2012-2013 yn bennaf ym maes Addasrwydd i Ymarfer. Mae angen yr adnodd ychwanegol hwn er mwyn rheoli maint cynyddol ein llwyth achosion a'i gymhlethdod cynyddol, i'r safonau o ran amseroldeb ac ansawdd sydd eu hangen yn unol â dangosyddion perfformiad allweddol Addasrwydd i Ymarfer.

Yn sgil adolygiad strwythurol ar ddechrau 2012-13, dilëwyd nifer o swyddi mewn cyfarwyddiaethau nad oeddent yn ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer, gan fynd i gostau diswyddo untro. Caiff cost yr ymarfer ailstrwythuro ei gwrthbwyso gan arbedion cyflog parhaus yn y dyfodol.

Cafodd y cynnydd mewn costau staff parhaol ei wrthbwyso gan ostyngiad yn lefel adnoddau contractwyr a ddefnyddir yn y busnes, wrth i ni gyfyngu ar lefel gweithgareddau rhaglenni.

### 10.2 Safleoedd

Mae'r cynnydd yng nghostau safleoedd yn deillio'n bennaf o brydlesu swyddfeydd yn 20 Old Bailey, o fis Tachwedd 2012, er mwyn darparu 12 ystafell bwrpasol ychwanegol sy'n addas at ddibenion cynnal gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer, er mwyn ymdopi â'r gweithgarwch cynyddol. Mae hyn yn ddewis cost-effeithiol yn hytrach na llogi ystafelloedd mewn gwestai ar gyfer gwrandawiadau. At hynny, roedd costau 2012-2013 yn cynnwys costau blwyddyn lawn ein swyddfeydd ar gyfer Addasrwydd i Ymarfer yn 1 Kemble Street, Llundain (sydd wedi'u prydlesu ers mis Mehefin 2011) a chostau am ystafelloedd â gwasanaeth ar gyfer gwrandawiadau yn Llys y Deml, Caerdydd, (a ddefnyddiwyd ers mis Tachwedd 2011).

### 10.3 Addasrwydd i ymarfer

Ceir manylion am weithgarwch Addasrwydd i Ymarfer yn ystod y flwyddyn yn yr adran o'r adroddiad blynyddol sy'n ymwneud ag adolygu perfformiad. Cafwyd cynnydd mewn costau yn unol â'r gweithgarwch ychwanegol sylweddol o ran ymchwiliadau a gwrandawiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, gwrthbwyswyd y cynnydd mewn costau yn y categori hwn i ryw raddau drwy gaffael lle i gynnal gwrandawiadau yn 20 Old Bailey, a thrwy nifer o arbedion effeithlonrwydd a wnaed yn ystod 2012-2013 gan gynnwys dechrau cynnal ymchwiliadau'n fewnol, lleihau costau ysgrifennu llaw fer a sicrhau rhwymedigaethau treth is mewn perthynas â phanelwyr Addasrwydd i Ymarfer.

### 10.4 Apeliadau cofrestru

Roedd y gwaith a oedd yn gysylltiedig â Phaneli Apeliadau Cofrestru yn cael ei wneud o fewn Addasrwydd i Ymarfer gynt. Fodd bynnag, bu ffocws cynyddol ar y gwaith hwn yn 2012-2013 a chynnydd yn nifer yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynglŷn â chofrestru. Cafodd Paneli Apeliadau Cofrestru newydd, o dan gadeiryddiaeth aelodau'r

Cyngor, eu cynnull, fel y bo'n briodol, er mwyn ymdrin yn benodol â'r gweithgarwch hwn.

### 10.5 Dibrisiant

Ceir taliadau dibrisiant is am fod sawl ased TG wedi cael ei ddibrisio'n llawn, gan gynnwys y system rheoli achosion ac ymarfer uwchraddio seilwaith cynharach. Gwrthbwyswyd y costau is hyn gan ddibrisiant ychwanegol ar adnewyddu cyfalafol swyddfeydd a lleoliadau Addasrwydd i Ymarfer.

### 10.6 Dadfeiliadau

Oherwydd y nifer gynyddol o eiddo ar brydles a'r rhwymedigaethau prydlesol naill ai i 'atgyweirio' eiddo o'r fath ar ddiwedd y brydles drwy eu dychwelyd i'w cyflwr gwreiddiol cyn iddynt gael eu prydlesu, neu i dalu swm priodol y cytunwyd arno i'r landlord, sefydlwyd darpariaeth ar gyfer y taliadau posibl hyn am ddadfeiliadau i eiddo. Mae hyn yn sicrhau bod ein cyfrifon yn adlewyrchu rhwymedigaethau perthnasol.

### 10.7 Arlwyo

Mae'r cynnydd yn unol â'r cynnydd mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer a'r gofynion cynyddol ar staff arlwyo i wasanaethu'r gwrandawiadau.

### 10.8 Cost sicrhau ansawdd addysg

Roedd costau sicrhau ansawdd mewn addysg yn 2012-2013 ar lefel arferol. Roedd costau'r flwyddyn flaenorol yn uwch nag arfer oherwydd gweithgarwch monitro cynyddol, gan fod yn rhaid ymestyn y ffocws a'r gwaith craffu cychwynnol i nifer o ddigwyddiadau monitro, o ganlyniad i adroddiadau anffafriol gan y Comisiwn Ansawdd Gofal neu faterion llywodraethu clinigol andwyol ym meysydd dysgu lleoliadau ymarfer penodol. At hynny, yn 2011-2012 cafodd yr amserlen ar gyfer y rhestr fonitro ei chywasgu er mwyn i'r gwaith gael ei wneud mewn un flwyddyn ariannol (2011-2012), yn hytrach na thros ddwy flwyddyn ariannol. Cytunwyd ar hyn am fod disgwyl i'r fframwaith Sicrhau Ansawdd ddechrau cael ei gyflawni fel darpariaeth fewnol yn ystod 2012-2013. Ond penderfynwyd peidio â gweithredu yn y modd hwn erbyn hyn.

### 10.9 Costau adolygu Awdurdodau Goruchwylio Lleol

Roedd costau adolygu Awdurdodau Gorchwylio Lleol yn 2012-2013 ar lefel arferol. Roedd costau'r flwyddyn flaenorol yn uwch nag arfer oherwydd yr adolygiad arbennig o Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty Prifysgol Bae Morecambe yn 2011-2012, a gynhaliwyd ar y cyd â'r Comisiwn Ansawdd Gofal o ganlyniad i bryderon ynglŷn ag ansawdd goruchwylio bydwragedd a gofal mamolaeth yn yr ymddiriedolaeth. At hynny, aethpwyd i wariant yn 2011-2012 wrth recriwtio a hyfforddi adolygwyr newydd ar gyfer yr Awdurdodau Gorchwylio Lleol.

### 10.10 Ffioedd proffesiynol

Roedd angen lefel is o ymgynghoriaeth TGCh yn 2012-2013, am fod y strategaeth TGCh yn cael ei hadolygu a bod rhaglenni cysylltiedig wedi cael eu hatal dros dro, tra'n disgwyl penderfyniad y Cyngor i gymeradwyo strategaeth ddiwygiedig. Ceisiwyd cyngor proffesiynol a chyfreithiol allanol yn 2012-2013 yn bennaf er mwyn rhoi cyngor a chymorth mewn nifer o feysydd Addasrwydd i Ymarfer, gan gynnwys cyflawni prosesau a darparu adnoddau a sicrhau ansawdd gwaith achos. Penodwyd ymgynghorwyr ar gyfer nifer o brosiectau eraill gan gynnwys yr ymarfer ailstrwythuro sefydliadol yn ystod haf 2012, adolygiad manwl o brosesau cofrestru (yn enwedig mewn perthynas â phrosesu ceisiadau o dramor) a sefydlu rhaglen rheoli newid er mwyn gorchwylio'r broses o weithredu'r argymhellion a wnaed gan y PSA yn ei adolygiad strategol. Yn ystod y flwyddyn flaenorol 2011-2012, roedd angen cyngor allanol mewn perthynas ag Addasrwydd i Ymarfer (yn enwedig y fenter bwysig i ddechrau cynnal ymchwiliadau o achosion yn fewnol), darparu profion dawn yr UE a rhaglenni addasu, adolygiad o'r ffordd rydym yn sicrhau ansawdd addysg a'n cyfraniad i'r ymchwiliad i'r safonau gofal yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford.

### 10.11 Datblygu TG a chymorth TG

Gellir priodoli'r cynnydd yn bennaf i gostau cynyddol trwyddedau meddalwedd a gwaith cynnal a chadw, er mwyn cefnogi'r nifer gynyddol o ddefnyddwyr o fewn yr NMC.

### 10.12 Hysbysebu a recriwtio

Mae lefel y gweithgarwch recriwtio yn ystod y ddwy flwyddyn wedi'i hysgogi'n bennaf gan y gofyniad i lenwi rolau ychwanegol ym maes Addasrwydd i Ymarfer. Yn y naill flwyddyn a'r llall bu nifer o ymarferion recriwtio yn ystod y flwyddyn ar gyfer penodiadau uwch swyddogion, ac ymarferion recriwtio sylweddol ar gyfer panelwyr Addasrwydd i Ymarfer. Yn 2012-2013 aethpwyd i gostau i recriwtio'r Cyngor newydd hefyd, a ddechreuodd ar ei waith ar 1 Mai 2013.

### 10.13 Argraffu cyhoeddiadau'r NMC

Gellir priodoli'r gostyngiad yn bennaf i'r penderfyniad i roi'r gorau i gyhoeddi a dosbarthu *Adolygiad yr NMC* yn 2012-2013. Mae'r buddsoddiad wedi cael ei ailgyfeirio at amrywiaeth eang o ddulliau amgen, wedi'u targedu o gyfathrebu â nyrsys a bydwragedd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt ar-lein.

### 10.14 Costau pwyllgorau

Gellir priodoli'r gostyngiad yn bennaf i gostau presenoldeb is mewn perthynas â'r Bwrdd Penodiadau. Ar ddechrau 2011-2012, cwblhaodd y Bwrdd Penodiadau broses arfarnu 360 gradd gynhwysfawr ar gyfer panelwyr Addasrwydd i Ymarfer. Rydym bellach yn defnyddio system awtomataidd ar gyfer arfarniadau ac adborth panelwyr.

### 10.15 Costau cymorth eraill

Mae costau cymorth eraill yn cynnwys costau ein system ffôn, costau cyfathrebu cyffredinol a thaliadau banc.

## 11 Gwybodaeth am gyflogeion

| Cyflogau a chostau cysylltiedig | **2013 £'000** | 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau[16] | | |
| • Uwch dîm rheoli | **808** | 941 |
| • Aelodau eraill o staff | **13,936** | 11,908 |
| Costau nawdd cymdeithasol (cyfraniadau YG cyflogeion): | | |
| • Uwch dîm rheoli | **71** | 97 |
| • Aelodau eraill o staff | **1,152** | 1,020 |
| Costau pensiwn – staff presennol:[17] | | |
| • Uwch dîm rheoli | **235** | 189 |
| • Aelodau eraill o staff | **2,769** | 2,779 |
| • Ymddeol yn gynnar[18] | **513** | 0 |
| Costau pensiwn - staff ymddeoledig sefydliadau blaenorol[19] | **26** | 25 |
| Staff dros dro | **2,753** | 3,777 |
| | **22,263** | 20,736 |

### Gwybodaeth am yr uwch dîm rheoli

Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a chyfarwyddwyr. Roedd cyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

| Bandiau cyflog | **2013 Nifer y staff** | 2012 Nifer y staff |
|---|---|---|
| (£) | | |
| 20,001 – 30,000 | **–** | 1 |
| 30,001 – 40,000 | **1** | 1 |
| 40,001 – 50,000 | **1** | – |
| 50,001 – 60,000 | **1** | – |

[16] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 10.1.
[17] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 21.
[18] Yn ystod 2012-2013 galwodd y ddarpariaeth yn y cynllun pensiwn ar gyfer ymddeol yn gynnar ar sail analluogrwydd parhaol i rym mewn perthynas â chyflogai. Penderfynwyd ar y swm a oedd yn daladwy gan Actwari'r Cynllun ac fe'i cymeradwywyd gan Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn. Cydnabuwyd y swm llawn o £513,000 yn y SOFA yn 2012–2013. Gwneir taliadau i'r Cynllun bob mis gan gychwyn ym mis Rhagfyr 2012. Ar 31 Mawrth 2013 roedd cyfanswm o £491,000 yn weddill yn y ddarpariaeth mewn perthynas â blynyddoedd y dyfodol, £67,000 a oedd yn ddyledus mewn blwyddyn (Nodyn 17) a £424,000 a oedd yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn (Nodyn 19).
[19] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 21.

| | | |
|---|---|---|
| 60,001 – 70,000 | **1** | 1 |
| 70,001 – 80,000 | **–** | 2 |
| 80,001 – 90,000 | **1** | 1 |
| 90,001 – 100,000 | **1** | – |
| 110,001 – 120,000 | **1** | 1 |
| 120,001 – 130,000 | **–** | 2 |
| 140,001 – 150,000 | **–** | – |
| 150,001 – 160,000 | **1** | – |

Yn ystod y flwyddyn, roedd benthyciadau ar gyfer tocynnau tymor a roddwyd i gyfarwyddwyr fel a ganlyn:

| | **2013**<br>**£** | 2012<br>£ |
|---|---|---|
| S Atkinson | 1,001 – 1,500 | 1,001 – 1,500 |
| L Mallors | 1,001 – 1,500 | 1,001 – 1,500 |
| S Page | 1,001 – 1,500 | – |
| S Williams | 2,001 – 2,500 | 2,001 – 2,500 |

Roedd cyfanswm y pensiynau a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2013 ar gyfer y cyfarwyddiadau hynny sy'n cymryd rhan yng nghynllun pensiwn yr NMC fel a ganlyn:

| **Cyfanswm y pensiynau a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth** | **2013**<br>**Nifer y staff** | 2012<br>Nifer y staff |
|---|---|---|
| (£) | | |
| 0 – 5,000 | **3** | 4 |
| 5,001 – 10,000 | **1** | 2 |
| 10,001 – 15,000 | **2** | 1 |
| 15,001 – 20,000 | **2** | 1 |

Mae'r cyfarwyddwyr yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn yr NMC.

Darperir buddiannau pensiwn drwy gynllun (cynllun pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig) a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited. Rhydd y cynllun fuddiannau ar sail 'cyflog terfynol' ar oedran ymddeol arferol o 60 oed. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60fed o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, gall aelodau ddewis cyfnewid rhan o'u pensiwn am gyfandaliad di-dreth. Gallant hefyd dderbyn llai o bensiwn er mwyn darparu pensiwn i enwebai sy'n goroesi. Os bydd unigolyn yn marw o fewn pum mlynedd i'r adeg y gwnaeth ymddeol, telir cyfandaliad sy'n unol â balans y pensiwn y byddai'r pensiynwr wedi'i gael petai wedi byw am bum mlynedd ar ôl ymddeol.

Os bydd cyflogai presennol yn marw, telir cyfandaliad sy'n ddwywaith swm y cyflog pensiynadwy ynghyd â holl gyfraniadau'r aelod gyda llog di-dreth cyfansawdd sy'n 3 y cant y flwyddyn. Os bydd cyflogai presennol yn marw a bod ganddo gymar sy'n goroesi,

telir pensiwn sy’n 1/160fed o’r cyflog pensiynadwy hefyd, am bob blwyddyn o wasanaeth y gallai’r aelod fod wedi’i chwblhau hyd at oedran pensiwn arferol.

Gellir ymddeol am resymau meddygol os bydd analluogrwydd parhaol. Yn yr achos hwn telir pensiynau ar unwaith heb unrhyw ostyngiad actiwaraidd.

### Gwybodaeth arall am gyflogeion

Yn ogystal â’r uchod, roedd 14 (2012: 15) o aelodau eraill o staff yr oedd eu cydnabyddiaeth yn dod o dan y bandiau canlynol:

| | **2013**<br>**Nifer y staff** | 2012<br>Nifer y staff |
|---|---|---|
| £60,001 – £70,000 | **11** | 12 |
| £70,001 – £80,000 | **2** | 1 |
| £80,001 – £90,000 | **1** | 1 |
| £90,001 – £100,000 | – | – |
| £100,001 – £110,000 | – | 1 |

Cyflogwyd 441 o gyflogeion ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn (uwch dîm rheoli 6 ac aelodau eraill o staff 435) ac yn y flwyddyn flaenorol cyflogwyd 370 (uwch dîm rheoli 9 ac aelodau eraill o staff 361). Gellir priodoli’r cynnydd yn nifer y staff i’r angen am staff ychwanegol yn ein cyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer (gweler nodyn 10.1).

## 12 Trethu

O ganlyniad i’w statws elusennol nid oes rhaid i’r Cyngor dalu treth gorfforaeth ar ei weithgareddau elusennol. Nid oes rhaid iddo ychwaith dalu treth enillion cyfalaf ar unrhyw asedau a gaiff eu gwerthu lle y defnyddir yr elw at ddibenion elusennol.

## 13 Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen

| | Dodrefn | Cyfarpar | 23PP Safle Iesddaliad hir | 23PP Adnewyddu'r Adeiliad | AiY Adnewyddu Adeiladau | Prosiectau TG | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Nodyn 13.1 | | | Nodyn 13.2 | **Cyfanswm y** |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| Cost: | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2012 | 316 | 3,586 | 9,772 | 5,752 | 4,714 | 3,392 | **27,532** |
| Ychwanegiadau | 0 | 412 | 0 | 0 | 1,266 | (4) | **1,674** |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddiadau | 132 | 0 | 0 | (132) | 0 | 0 | **0** |
| Ailbrisio | 0 | 0 | 2,178 | 0 | 0 | 0 | **2,178** |
| 31 Mawrth 2013 | 448 | 3,998 | 11,950 | 5,620 | 5,980 | 3,388 | **31,384** |
| | | | | | | | |
| Dibrisiant: | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2012 | 172 | 2,067 | 391 | 2,778 | 698 | 3,010 | **9,116** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 27 | 664 | 197 | 570 | 629 | 378 | **2,465** |
| Wedi'u dileu wrth Werthu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddiadau | 28 | 0 | 0 | (28) | 0 | 0 | **0** |
| Addasiad ailbrisio | 0 | 0 | (588) | 0 | 0 | 0 | **(588)** |
| 31 Mawrth 2013 | 227 | 2,731 | 0 | 3,320 | 1,327 | 3,388 | **10,993** |
| | | | | | | | |
| **Gwerth llyfr net 31 Mawrth 2013** | **221** | **1,267** | **11,950** | **2,300** | **4,653** | **0** | **20,391** |
| Gwerth llyfr net 31 Mawrth 2012 | 144 | 1,519 | 9,381 | 2,974 | 4,016 | 382 | 18,416 |

## 13 Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen - parhad

13.1 Caffaelodd yr UKCC (y corff a ragflaenodd yr NMC) y buddiant lesddaliadol yn 23 Portland Place, Llundain W23B 1PZ oddi wrth Gyngor Nyrsio Cyffredinol Cymru a Lloegr am ddim cost. Daw'r brydles i ben yn y flwyddyn 2933. Prisiwyd y brydles ar 31 Mawrth 2013 ar sail defnydd presennol, gan briswyr allanol Deloitte LLP, am £14,250,000. Dylid nod bod cyfamod cyfyngol ar y brydles.

13.2 Mae categori asedau prosiectau TG yn cynnwys system rheoli achosion Addasrwydd i Ymarfer a gwaith i uwchraddio seilwaith TGCh, a gwblhawyd yn ystod 2009-2010.

Ymgymerwyd â'r prosiectau cyfalaf canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Ailgyfarparu swyddfeydd ar brydles yn 20 Old Bailey er mwyn darparu 12 ystafell ychwanegol ar gyfer gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer.
- Cychwyn ar gyfnod sefydlogi'r strategaeth TGCh.
- Cychwyn ar waith i uwchraddio'r system gyllid

## 14 Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Noda Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 natur y gydberthynas rhwng yr NMC a'r Cyfrin Gyngor a'r dulliau adrodd sy'n ofynnol. Er nad yw'n atebol i'r Adran Iechyd, mae'r NMC mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran ynghylch materion polisi a materion eraill.

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2012 - 31 Mawrth 2013, talwyd cyfanswm o £49,800 (2011-2012: £48,000) i'r rhai a oedd yn dal swydd y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd

Yn ystod y flwyddyn, talwyd lwfansau a chostau teithio a chynhaliaeth gwerth £278,000 (2011-2012: £291,000) i aelodau'r Cyngor.

Telir aelodau'r Cyngor yn uniongyrchol drwy gyflogres yr NMC. Talwyd swm o £18,000 i Brifysgol Glannau'r De Llundain mewn perthynas â gwasanaeth y Dirprwy Gadeirydd ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill hyd at fis Medi 2012.

Nodir manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol y Cyngor yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ar dudalen 20.

Gwnaed croniad o £26,000 (2011 – 2012: £25,517) ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm ac yswiriant gwladol posibl mewn perthynas â thaliadau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth aelodau.

## 15 Dyledwyr

| | 2013 £'000 | 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr eraill | **109** | 147 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **1,638** | 1,410 |
| | **1,747** | 1,557 |

## 16 Credydwyr

| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 2013 £'000 | 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr eraill a chroniadau | **9,546** | 13,607 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol (gan gynnwys YG y Cyflogwr) | **420** | 538 |
| Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2012-2013 | **–** | 29,495 |
| Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2013-2014 | **32,255** | – |
| | **42,221** | 43,640 |

## 17 Darpariaethau

| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 2013 £'000 | 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Darpariaeth bensiwn - ymddeol yn gynnar[20] | **67** | – |
| | **67** | – |

## 18 Credydwyr

| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 2013 £'000 | 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2013-2014 | **–** | 96 |
| Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2014-2015 | **102** | – |
| | **102** | 96 |

Mae a wnelo incwm gohiriedig â ffioedd cyfnodol a ragdalwyd, ar gyfer symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

[20] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 11, troednodyn 18.

## 19 Darpariaethau

| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Dadfeiliadau[21] | **212** | – |
| Darpariaeth bensiwn - ymddeol yn gynnar[22] | **424** | – |
| | **636** | – |

## 20 Statws elusennol

Ar 27 Mawrth 2002 roedd yr NMC wedi'i gofrestru yn y Gofrestr Ganolog o Elusennau (rhif elusen 1091434). O ystyried hyn, caniatawyd rhyddhad ardrethi gan Ddinas Westminster. Mae'r statws hwn yn rhoi buddiannau treth hefyd[23]. Ar 18 Mehefin 2007 cafodd yr NMC ei gofrestru gyda Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif SC038362).

## 21 Ymrwymiadau pensiwn

Mae'r NMC yn cymryd rhan ar y cyd â'r Adran Iechyd, NHS Education for Scotland, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cynllun pensiwn (cynllun pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig, rhif cofrestru'r cynllun 101652586) a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited. Mae'r cynllun, yr oedd tua 39 y cant o gyflogeion yr NMC yn aelodau ohono ar 31 Mawrth 2013, yn gynllun buddiannau diffiniedig a ariennir.

Codir cyfraniadau i'r cynllun i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SOFA) yn y fath fodd ag i ledaenu cost pensiynau dros fywyd gwaith cyflogeion. Pennir cyfraniadau gan actwari cymwysedig ar sail prisiadau bob tair blynedd.

Cwblhawyd y prisiad diweddaraf o'r cynllun ar ran Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn gan Premier Pensions Management Limited ar 31 Mawrth 2010, gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol o brisio. Ar ddyddiad y prisiad, roedd asedau'r cynllun yn werth £78.3 miliwn ar y farchnad (heb gynnwys blwydd-daliadau a ddelir gan bensiynwyr yswiriedig a chyfraniadau gwirfoddol ychwanegol a fuddsoddwyd mewn cronfeydd ar wahân i roi buddiannau ar sail prynu arian parod). Roedd gwerth yr asedau yn cyfrif am 91 y cant o werth y buddiannau a oedd wedi cronni i aelodau ar ôl caniatáu ar gyfer y cynnydd disgwyliedig mewn enillion a phensiynau yn y dyfodol. Mae'r diffyg asedau ar gyfer gwasanaeth a roddwyd yn cael ei amorteiddio dros 10 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2020. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad oedd enillion gwirioneddol o fuddsoddiadau yn uwch na chynnydd o 1.5 y cant y flwyddyn mewn cyflogau ac yn uwch na chynnydd o 1.5 y cant y flwyddyn mewn pensiynau.

[21] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 10.6.
[22] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 11, troednodyn 18.
[23] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 12.

Roedd y gost pensiwn a aseswyd ar sail cyngor actiwaraidd yn y gorffennol ac a godwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn:

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cyfraniadau'r NMC (cyflogwr) i bob cynllun yn ystod y flwyddyn | **3,026** | 2,968 |
| Darpariaeth ymddeol yn gynnar[24] | **491** | – |
| | **3,517** | 2,968 |
| Cyfraniad yr NMC (cyflogwr) | **27.4%** | 27.4% |
| Cyfraniad cyflogeion | **6.0%** | 6.0% |

Pe bai'r cynllun wedi cael ei ddirwyn i ben ar y dyddiad prisio (31 Mawrth 2010), byddai'r asedau wedi cyfrif am tua 71.6 y cant o'r swm sydd ei angen i brynu contractau yswiriant i fodloni buddiannau cronedig aelodau gweithredol a'r rhai sydd wedi gadael y cynllun a buddiannau cyfredol pensiynwyr. Bydda'r diffyg amcangyfrifedig wedi bod yn £31 miliwn.

Mae cynllun adfer ar waith i sicrhau y bydd lefel ariannu'r cynllun yn cyrraedd 100 y cant yn seiliedig ar dybiaethau actiwaraidd presennol, erbyn 31 Mawrth 2020. Bydd yr NMC yn gwneud iawn am y diffyg dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020 drwy barhau â'r taliadau o £1.123 miliwn y flwyddyn o dan ei gynllun adfer presennol.

Prisiwyd y cynllun ar ran Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn gan Premier Pensions ar 31 Mawrth 2013, a bydd canlyniadau'r prisiad hwn ar gael yn ystod haf 2013. Caiff canlyniadau'r prisiad a'r effaith ar ariannu'r cynllun yn y dyfodol eu trafod rhwng Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn a'i gynghorwyr, a'r cyflogwyr.

Mae'r NMC wrthi'n adolygu ei ddarpariaeth ar gyfer y cynllun pensiwn wrth baratoi ar gyfer awto-gofrestru. Y dyddiad dechrau fesul cam ar gyfer awto-gofrestru yw 1 Chwefror 2014.

Safon gyfrifyddu, FRS 17: Nid oes unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â chyfran yr NMC o gyfanswm diffyg y cynllun sef £7.9 miliwn ar adeg y prisiad actiwaraidd diwethaf (31 Mawrth 2010) wedi'i chynnwys yn y cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, gan fod y cynllun yn un aml-gyflogwr ac ni all yr NMC nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

O dan yr amgylchiadau hyn, mae FRS 17 yn darparu ar gyfer cyfrif am y cyfraniad i'r cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Fel y cyfryw, bydd y gost a gydnabyddir yn SOFA'r NMC yn cyfateb i'r cyfraniad sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r NMC yn talu cost unrhyw gynnydd pensiwn nas ariennir a roddir i bensiynwyr sefydliadau a wnaeth ei ragflaenu nad ydynt yn aelodau o gynllun pensiwn yr NMC.

[24] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 11, troednodyn 18.

Telir y costau hyn pan fydd achos yn codi ac fe'u codir i'r SOFA yn unol â hynny. Yn 2012 - 2013 roedd y gwariant hwn yn cyfateb i £25,910 (2011 - 2012: £24,991).

## 22 Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2013, nid oedd unrhyw wariant cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar ei gyfer, nac ychwaith unrhyw wariant cyfalaf y contractiwyd ar ei gyfer ond na ddarparwyd ar ei gyfer yn y datganiadau ariannol.

## 23 Cysoni adnoddau net i mewn/(allan) â llif arian parod net o weithgareddau gweithredol.

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Adnoddau net (allan) cyn gweithrediadau | **10,089** | (8,410) |
| Incwm buddsoddiadau | **(1,275)** | (1,200) |
| Taliadau dibrisio | **2,465** | 2,635 |
| (Cynnydd) mewn dyledwyr | **(190)** | (353) |
| (Lleihad)/cynnydd mewn credydwyr a darpariaethau | **(710)** | 5,187 |
| Mewnlif (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu | **10,379** | (2,141) |

## 24 Cysoni llif arian parod net â symudiadau mewn cronfeydd net

| | **2013** | 2012 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cynnydd/(lleihad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn | **9,980** | (4,815) |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | **65,432** | 70,247 |
| Cronfeydd net ar 31 Mawrth | **75,412** | 65,432 |

## 25 Dadansoddiad o'r newidiadau mewn cronfeydd net

| | 1 Ebr 12 | **Llifau arian parod** | **31 Maw 13** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | **65,432** | **9,980** | **75,412** |
| Cyfanswm y | **65,432** | **9,980** | **75,412** |

## 26 Ymrwymiadau prydlesu

Ar 31 Mawrth 2013 roedd gan yr NMC ymrwymiadau i wneud taliadau yn y flwyddyn ganlynol o dan brydlesau gweithredu nad oedd modd eu canslo fel y nodir isod.

| | Tir ac adeiladau | | Offer a pheiriannau | |
|---|---|---|---|---|
| | **2013** | 2012 | **2013** | 2012 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Prydlesau gweithredu sy'n dod i ben: | | | | |
| • O fewn blwyddyn | **–** | – | **5** | – |
| • Yn yr ail i bumed flwyddyn yn cynnwys y blynyddoedd hynny | **509** | – | **–** | 5 |
| • Mewn mwy na phum mlynedd | **1,940** | 1,940 | **–** | – |
| Ymrwymiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn | **2,449** | 1,940 | **5** | 5 |

Mae'r NMC yn prydlesu eiddo yn 61 Aldwych, Llundain, ar gyfer y cyfnod hyd at 10 Medi 2019, Clarendon House, 114–116 George Street, Caeredin, ar gyfer y cyfnod hyd at 24 Ebrill 2021, 1 Kemble Street, Llundain, ar gyfer y cyfnod hyd at 21 Rhagfyr 2019 ac 20 Old Bailey ar gyfer y cyfnod hyd at 20 Tachwedd 2014.

## 27 Symudiad mewn cronfeydd cyfyngedig

| | **Balans ar 1 Ebrill 2012** | **Incwm** | **Adnoddau a wariwyd** | **Balans ar 31 Mawrth 2013** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| AiY ac adfer cronfeydd wrth gefn (i) | – | 20,031 | (1,174) | **18,857** |
| Ailddilysu – (ii) | 110 | – | (110) | – |
| Data addasrwydd i ymarfer - asesu (iii) | 10 | – | (10) | – |
| **Balans ar 31 Mawrth** | 120 | 20,031 | (1,294) | **18,857** |

(i) Bwriedir i'r grant o £20 miliwn a ddarparwyd gan yr Adran Iechyd gynnig y sefydlogrwydd ariannol er mwyn cyflawni dangosydd perfformiad allweddol dyfarnu'r NMC ynglŷn ag Addasrwydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014, cael gwared ar yr ôl-groniad hanesyddol o achosion sy'n ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014, a sicrhau'r isafswm lefelau mewn cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg erbyn mis Ionawr 2016. Caiff y grant ei wario mewn rhandaliadau misol cyfartal dros gyfnod y grant, a bydd balans y cronfeydd cyfyngedig wrth gefn yn unol â hynny bob mis, gan ddechrau ym mis Chwefror 2013, gyda'r swm terfynol yn cael ei wario ym mis Rhagfyr 2015.

(ii) Roedd y balans o £110,000 ar 1 Ebrill 2012 yn ymwneud â chyfraniad gan yr Adran Iechyd tuag at waith yr NMC ar ailddilysu. Defnyddiwyd y balans o £110,000 a gariwyd ymlaen yn 2012–2013.

(iii) Roedd y balans o £10,000 ar 1 Ebrill 2012 yn ymwneud â grant gan yr Adran Iechyd i asesu data'r NMC ar addasrwydd i ymarfer er mwyn datblygu fframwaith seiliedig ar risg ar gyfer ailddilysu. Defnyddiwyd y balans o £10,000 a gariwyd ymlaen yn 2012-2013.

## 28 Asedau net yn ôl cronfa

| | Digyfyngiad cyffredinol | Cyfyngedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Asedau sefydlog | **20,391** | | **20,391** |
| Asedau cyfredol | **58,302** | **18,857** | **77,159** |
| Rhwymedigaethau cyfredol | **(42,288)** | | **(42,288)** |
| Rhwymedigaethau hirdymor | **(738)** | | **(738)** |
| Balans ar 31 Mawrth 2013 | **35,667** | **18,857** | **54,524** |

## 29 Taliadau arbennig

Gwnaed dau daliad arbennig[25] yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 gwerth £23,162 i gyd (blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 pedwar taliad arbennig gwerth £99,300 i gyd). Cadarnhawyd bod y taliadau hyn yn briodol ac yn rhesymol gan Drysorlys EM.

[25] Mae taliadau arbennig yn yr enghraifft hon yn cyfeirio at daliadau diswyddo arbennig a dalwyd i gyflogeion ac eraill sy'n uwch na'r gofynion statudol neu gytundebol arferol pan fyddant yn gadael cyflogaeth boed hynny pan fyddant yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n dod i gytundeb i derfynu eu contract. Mae'n rhaid i daliadau diswyddo arbennig bob amser gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM.

**Atodiad 1**

# The Nursing and Midwifery Order 2001 (Form of Accounts) Determination 2010

Their Lordships make the following determination in exercise of powers conferred by article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001[26].

This determination has effect from 23rd February 2010.

**Interpretation**

1. In this Determination-

> “the accounts” means the accounts which it is the Council’s duty to keep and prepare under article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001 in respect of the financial year ending on 31st March 2010 and subsequent financial years;
>
> “the Charities’ SoRP” means the “Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice 2005 prepared by the Charities Commission or any updated edition in force for the relevant financial year.
>
> “the Council” means the Nursing and Midwifery Council;
>
> “the FReM” means the Government Financial Reporting Manual issued by HM Treasury which is in force for the relevant financial year.

**Determination**

2. The accounts must-

> (a) be prepared so as to give a true and fair view of the Council’s state of affairs as at 31st March of the financial year in question and of the incoming resources and application of resources of the Council for that financial year; and
>
> (b) disclose any material incoming or outgoing resources that have not been applied to the purposes intended by Parliament or material transactions that have not conformed to the authorities which govern them.

3. Subject to paragraph 4, in order to comply with paragraph 2(a), the accounts must be

[26] O.S. 2002/253

prepared-

(a) in compliance with the accounting principles and disclosure requirements contained in the Charities' SoRP; and

(b) having regard to the requirements of the FReM to the extent that those requirements clarify, or build on, the requirements of the Charities' SORP.

4. Where the presence of exceptional circumstances means that compliance with the requirements of the Charities SORP or the FReM would give rise to the preparation of accounts which were inconsistent with the requirement in paragraph 2(b), those requirements should be departed from only to the extent necessary to give a true and fair view of that state of affairs.

5. In cases referred to in paragraph 4, informed and unbiased judgement should be used to devise an appropriate alternative treatment which is consistent with both the economic characteristics of the circumstances concerned and the spirit of the Charities' SORP and the FReM.

6. This determination shall be reproduced as an appendix to the published accounts.

Signed by the authority of the Privy Council

Dated: 18th July 2011

TSO
information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan TSO (y Llyfrfa) ac mae ar gael:

Ar-leinwww.tsoshop.co.uk

Drwy'r post, dros y ffôn, ffacs ac e-bost.
Y LLYFRFA
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol dros y ffôn: 0870 600 5522
Archebwch drwy'r Llinell Gymorth Seneddol ar gyfradd leol (Lo-Call) ar 0845 7 023474
Archebu drwy ffacs: 0870 600 5533
E-bost:customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop
12 Bridge Street, Parliament Square, London
SW1A 2JX
Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol dros y ffôn: 020 7219 3890
Archebion drwy ffacs: 020 7219 3866
E-bost: shop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.shop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill